
ECO'R WYDDFA

RHIF 333 MAI 2006 PRIS 40c

Cofiwch am
**BEDWEN LYFRAU**
Gŵyl Lyfrau Gymraeg i'r teulu
yn Galeri, Caernarfon
penwythnos Banc
Calan Mai

# PRIODAS YM MHATAGONIA



**Ar ôl carwriaeth wnaeth greu newyddion drwy Gymru gyfan, mae merch o Waunfawr wedi priodi'i chariad o Batagonia.**

**Efallai eich bod yn cofio pan wnaeth Luis Austin geisio dod i dreulio'r Nadolig yn Waunfawr gyda'i gariad Heddus Gwynedd a'i theulu dros flwyddyn yn ôl, cafodd ei yrru yn ei ôl i'r Ariannin gan yr awdurdodau, er bod ganddo'r fisa cywir. Bu pobl lleol yn ddygn yn codi arian i helpu Luis i gael dod yn ôl i Gymru, ac erbyn hyn gallwn adrodd am ddiweddglo hapus iawn i'r stori, sef priodas Heddus a Luis ym Mhatagonia yn ddiweddar...**

Yn ystod mis Chwefror eleni aeth tri ar hugain o Gymry drosodd i Esquel ym Mhatagonia i fod yn dystion ym mhriodas Heddus Gwynedd o Waunfawr a Luis Austin o Esquel.

Cynhaliwyd y gwasanaeth, o dan ofal Christina Dinonto o Drevelin, yng nghapel Cymraeg Seion, Esquel, a phleser mawr oedd cael cwmni Cymry Cymraeg Esquel, ffrindiau o'r Gaiman ynghyd â ffrindiau a theulu Luis yno i gyd-ddathlu mewn Cymraeg a Sbaeneg gyda ni.

Daeth rhai o aelodau Côr Capel Seion a'u harweinydd i'r gwasanaeth a phleser oedd clywed y canu yn ystod y gwasanaeth gydag Osian yn cyfeilio ar yr organ fach a Meilir yn cynorthwyo ar y gitâr.

Drwy gydol y gwasanaeth roedd y pâr priod yn wynebu'r gynulleidfa a syndod i ni oedd clywed clapio uchel a gweiddi 'hwrê' yn syth ar ôl y ddefod. Wrth gwrs, fe ymunom ninnau gyda'r Archentwyr yn frwdfrydig!

Diego Austin oedd y gwas, a'r morynion oedd Meleri (ffrind o Gymru) a Jessica (ffrind o Esquel). Hefyd roedd dau o berthnasau ifancaf Luis yn gyfrifol am ofalu am a chyflwyno'r modrwyau.

Yn dilyn y gwasanaeth cawsom wledd flasus a lliwgar yn y Ganolfan ac mae'n debyg mai hon oedd y briodas gyntaf yno ers tua 1987. Roedd y Ganolfan wedi ei haddurno ar gyfer y briodas ond diddorol, hefyd, oedd gweld lluniau hanesyddol yn cael lle amlwg ar y waliau, gan gynnwys lluniau o briodasau cynharach a lluniau pobl efo cysylltiadau Cymreig, gan gynnwys llun o gyn-daid Luis, sef Thomas Tegai Austin, a oedd yn aelod o'r fintai gyntaf a aeth drosodd ar y Mimosa.

Roedd yr englyn enwog i Neuadd Mynytho yn cael lle amlwg yno hefyd. Cyflwynwyd y copi o'r englyn gan Hazel Charles Evans ar achlysur agor Canolfan Gymraeg yr Andes yn 2002.

Yn ystod y diwrnod gwelwyd cyfarchion ar DVD oddi wrth y ddwy nain – Nain Trefor a Nain Nanhoron, ac oddi wrth ffrindiau Heddus a Luis o Gymru oedd yn methu â bod yno gyda hwy.

Mae'r Ganolfan yn cael ei defnyddio yn ddyddiol gan blant ac oedolion i ddysgu a gloewi eu Cymraeg. Dyma ble dysgodd Luis yr iaith ac ar hyn o bryd mae Heddus yn cynorthwyo yn yr ysgol Gymraeg. Wrth gwrs, mae llawer o weithgareddau eraill yn digwydd yno hefyd.

Eleni, i goffáu canmlwyddiant sefydlu tref Esquel, argraffwyd calendr arbennig gan y Gymdeithas Gymraeg sydd yn dangos lluniau o'r teuluoedd Cymreig yn yr ardal tua chan mlynedd yn ôl. Rwy'n dal i ryfeddu fod cymaint o Gymraeg i'w weld yno o hyd.

Ychydig ddyddiau ar ôl y briodas croesodd criw ohonom Y Paith – mewn bws mini! i Drelew. Aros ar y ffordd am banad yn Rhyd yr Indiaid a Dôl y Plu. Rhyfeddu at y lliwiau, y siapiau a'r patrymau sydd yn y creigiau. Gwirioni unwaith eto wrth weld y Camwy'n llifo'n hamddenol. Pwy fuasai'n meddwl fod hon wedi gorlifo a rhoi y ffasiwn golledion i'r Cymry yn y cyfnod cynnar.

Rhaid oedd mynd i Borth Madryn – y tro yma yng nghwmni Luis. Unwaith eto llogi bws mini i fynd â ni ac ar y ffordd yno eglurodd Luis i'r gyrrwr mai Cymry oeddem a'n bod yn awyddus i fynd i weld yr ardaloedd ym Mhorth Madryn oedd efo cysylltiadau Cymreig. Oedd o yn gwybod i ble i fynd â ni? Luis yn chwerthin yn uchel,

'Wyddoch chi beth ydy enw ei fam o? Gwenfair!'

Er nad oedd y gyrrwr yn siarad Cymraeg roedd yn gwybod popeth am ei gysylltiadau Cymreig ac yn falch o hynny. Dangosodd y cerfluniau hardd sydd yn cofnodi glaniad y Cymry, yr ogofâu ble buont yn byw a'r gofgolofn sydd yn enwi'r teithwyr oedd ar y *Mimosa*. Bu'n rhaid i Heddus a Luis sefyll yn hir yma i bawb gael lluniau gan mai'r enwau cyntaf ar y gofgolofn ydy Thomas Tegai a William Austin. (dau frawd o Aberpennar).

Y diwrnod canlynol gwnaethom yn siŵr mai'r un gyrrwr oedd yn mynd â ni o gwmpas eto. Dangosodd Gapel Salem i ni – yr unig gapel yn y Wladfa sydd wedi ei wneud o bren a sinc; aeth â ni i ardal y Tir Halen, Bryncrwn, Y Gaiman ac i Ddolafon – ac roedd yn hynod o falch o gael dangos bedd Lewis Jones yn Nhrelew i ni.

Yn yr Amgueddfa yn Nhir Halen cawsom gyfarfod â geneth sydd yn bwriadu dod i Gymru y flwyddyn nesaf i wella ei Chymraeg.

'Athrawes ddiddorol ydy Esyllt,' medda hi. Byd bach!



# ECO'R WYDDFA

**RHIF 333**
**MAI 2006**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.*



**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Tîm Golygyddol**
d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON
Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com
Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820
Sion Williams (01286) 871858
Alun Ellis (01286) 650761

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Arwel Jones

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prjr.wales.com

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

**TREFNYDD PLYGU**
Shioned Griffith (650570)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**GOHEBWYR PENTREFI**

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt (870740)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)


**Y RHIFYN NESAF**
**Deunydd i law'r golygyddion perthnasol**
**NOS LUN, 22 MAI**
**Os gwelwch yn dda**
**Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg**
**NOS IAU, 1 MEHEFIN**

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

**Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570**

| Rhifyn | Dyddiad Copi | Dyddiad Plygu | Ble | Cysylltu â | Rhif Ffôn |
|---|---|---|---|---|---|
| Mehefin | 22 Mai | 1 Mehefin | Brynrefail | Gwyn Hefin Jones | 870 848 |

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon

Annwyl Ddarllenwyr
Mae Uned y Clefyddydau yn gyfrifol am restru digwyddiadau celfyddydol Gwynedd ar safle we Cyngor Gwynedd. Rydym yn gwahodd canolfannau, cymdeithasau ac ymarferwyr celfyddydol i yrru manylion unrhyw ddigwyddiadau celfyddydol atom er mwyn eu rhestru ar y calendr digwyddiadau electronig a welir yn www.gwynedd.gov.uk/celf

Os yr hoffech restru eich digwyddiadau celfyddydol ar y wefan mae croeso cynnes iddynt yrru'r manylion atom. Cynigir y gwasanaeth yma yn rhad ac am ddim.
Yn gywir
Gwawr Wyn Roberts
Swyddog Celfyddydau Cymunedol
(01286) 679721
celf@gwynedd.gov.uk

---

1 Y Ddôl
Bethel

Annwyl Olygydd,
Tybed a allaf ofyn am gymorth gan ddarllenwyr yr *Eco*? Rwyf yn gweithio ar draethawd MA ym Mhrifysgol Bangor ar etifeddiaeth persaerniol adeiladau y capeli lleol. Rwyf yn casglu gwybodaeth, yn cynnwys lluniau, am bob capel yn yr ardal. Hoffwn gynnwys lluniau o'r capeli sydd bellach wedi eu dymchwel. Os oes gan unrhyw un hen luniau o'r adeiladau sydd wedi mynd y buaswn yn cael gwneud copi ohonynt byddwn yn ddiolchgar dros ben i glywed ganddynt. Fy rhif ffôn yw (01248) 670995 neu e-bost: SarahEHJones@dsl.pipex.com.
Diolch yn fawr
Sarah Jones

---

Ieuan Wyn Jones AC
Plaid Cymru
Tŷ Gwynfor
18 Park Grove
Caerdydd
CF10 3BN
Mawrth 29ain 2006

Annwyl Olygydd,
Ysgrifennaf i hysbysu eich darllenwyr am wefan cyffrous newydd Plaid Cymru – Gwrando ar Gymru – www.www2007.info. Mae'r wefan yn rhan annatod o raglen 6 mis y Blaid sy'n ymgynghori gyda phobl Cymru wrth i ni baratoi ar gyfer etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2007.

Rydym am glywed barn pobl Cymru, beth yr hoffech chi weld llywodraeth Plaid Cymru yn ei gyflawni ar ôl yr etholiad nesaf. Fel plaid, rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio pob math o fesurau i sicrhau fod ein rhaglen lywodraethol ni yn un sy'n adlewyrchu dyheadau pobl Cymru.

Mae'r wefan yn cynnig nifer o ddulliau arloesol o gyfathrebu megis adran Syniad y Dydd, adran Pleidlais ar Garlam, a Negesfwrdd.

Hoffwn annog unrhyw un sydd am weld Cymru well i gysylltu â'r wefan. Y cyfeiriad eto yw www.www2007.info

Gyda'n gilydd, adeiladwn Gymru well.
Ieuan Wyn Jones AC
Arweinydd Plaid Cymru

---

Ysgol yr Hendre
Moreno 253
Trelew
Chubut
Patagonia
Yr Ariannin

Annwyl GyfeillionPatagonia
Erbyn hyn gobeithio eich bod wedi gweld rhaglen *Ysgol Trelew* ar S4C dros y Pasg a gobeithio eich bod wedi ei mwynhau. Rydych wedi gallu gweld gyda'ch llygaid eich hunain sut rydym wedi gwario'r arian a godwyd ganddoch chi ar ein rhan a gobeithiwn yn arw eich bod yn falch o'ch cyfraniad ac yn fodlon gyda'n gwaith.

Rydym am ddiolch o waelod calon i chi am eich cymorth, eich gwaith, eich cefnogaeth a'ch cred ynddom ni a'r her o'n blaenau. Rydym wedi cyflawni gwyrthiau drwy agor yr ysgol Gymraeg hon yn Nhrelew, a'r her o'n blaenau nawr ydy sicrhau fod hon yn ysgol lwyddiannus ac yn darparu'r addysg orau bosibl i'n plant.

Diolch o galon i chi i gyd – hebddoch chi byddai'r freuddwyd yn dal yn hynny – breuddwyd!
Enrique Kor,
Llywydd
Catrin Morris de Junyent
Ysgrifennydd
Cylch Cymraeg Trelew

## Ymchwil ar Sut Mae Cancr yn Effeithio ar y Teulu

Mae Yr Athro Mari Lloyd Williams o brifysgol Lerpwl yn edrych ar sut mae teuluoedd yn dygymod pan fo rhiant sydd â phlant dibynnol yn diodde gyda chancr. Mae'r ymchwil yn gobeithio darganfod sut y gall ysbytai ac eraill wella'r gofal maent yn ei gynnig. Rydym yn chwilio am bobl a fyddai'n fodlon siarad gyda ni am eu profiadau – gall y cyfweliad cymryd lle yn y cartref. Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan neu os hoffech fwy o wybodaeth am yr astudiaeth cysylltwch â ni ar 0151 794 5283 neu ar vkennedy@liv.ac.uk.

---

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Pen Roc
Rhodfa'r Môr
Aberystwyth

***Gwahoddiad i Gefnogi'r Rali Fawr***

Am 2 o'r gloch ar brynhawn dydd Sadwrn, 10 Mehefin, mae'n fwriad gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg drefnu Rali Fawr Dros Ddeddf Iaith yn Neuadd Fawr, Canolfan y Clefyddydau, Aberywtwyth.

Bwriadwn gael cynrychiolwyr o'r gwahanol fudiadau Cymreig a'r pleidiau gwleidyddol yng Nghymru i gymryd rhan. Nid yn unig yr ydym am weld amrywiaeth o siaradwyr ond hefyd dymunwn wahodd mudiadau, cymdeithasau, Papurau Bro a Cylchgronnau Cymreig i ddod â stondinau i'r rali.

Mae'r Neuadd Fawr yn dal yn agos at fil o bobl, felly apeliwn yn daer iawn am gefnogaeth pob mudiad, cyhoeddiad ac unigolyn yng Nghymru sydd am ein gweld yn cael y maen i'r wal ar y mater hwn.

Dros y flwyddyn ddiwethaf cafwyd cryn gonsensws ar fater Deddf Iaith yng Nghymru ac mae'n bwysig fod pob un o'r pleidiau gwleidyddol yn rhoi ymrwymiad i gyflwyno Deddf Iaith yn eu Maniffesto ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2007. Dyma'r amser i bwyso'n galed am yr ymrwymiad hwnnw.

Fe ddefnyddir y rali hefyd i lansio deiseb genedlaethol dros Ddeddf Iaith.

Apeliwn yn daer arnoch i'n cynorthwyo gyda'r rali hon drwy:

- alw ar eich darllenwyr i ddod i'r rali ar 10 Mehefin;
- dod â stondin i'r rali;
- cynorthwyo gyda'r gwaith o ddosbarthu a chasglu enwau ar y ddeiseb.

Heb eich cymorth chi ni all yr ymgyrch hon lwyddo. Gyda'ch cymorth chi gellir newid y sefyllfa ieithyddol yng Nghymru unwaith ac am byth.
Yn gywir
Dafydd Morgan Lewis
Swyddog Ymgrychoedd


# R. L. DAVIES
Coed Bolyn Mawr, Bethel

JCB *Fastracs* a *trailers* 16 tunnell *diggers* bychain ac *excavators* 360° newydda llawer mwy



- ar gyfer llogi peiriannau
- tyllu *footings*
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd

Ffoniwch am fanylion
**(01248) 671300** neu **(07775) 638620**

# Gair o Gae'r Gors

**Disgwyl deugain mlynedd i ail-doi'r tyddyn**

Petawn i'n ddigrifwr, mi faswn i'n peri i chi chwerthin rŵan. Mae digrifwyr ein llwyfannau nosweithiau llawen wedi hel yr adeiladwr druan i'r un corlan-tynnu-coes â'r fam-yng-nghyfraith gwynfannus a'r ffarmwr cybyddlyd ers tro byd. Sawl jôc sydd amdano'n codi crocbris am ei lafur amwys, neu'n gaddo 'gorffen y gwaith 'fory' a 'fory' byth yn dyfod? Yn ffodus iawn i'r adeiladwr (ac i chithau, efallai...) dw i'n dda i ddim am adrodd stori ddigri, a dyma osgoi, felly, unrhyw dynnu coes am ddisgwyl deugain mlynedd am adeiladwr yng Nghae'r Gors.

Aethpwyd ati i ddiogelu'r adeilad yn 1967, o ganlyniad i sefydlu Cronfa Deyrnged Dr Kate Roberts yn 1965. Casglwyd dros £1,300 – digon i aelodau'r Gronfa brynu Cae'r Gors ond nid digon i adfer y tŷ. Penderfynodd y pensaer ei ddi-doi ac i dynnu'r hen blaster gan adael muriau moel y tyddyn yn gwmni unig i'r giât mochyn.

Llun tra gwahanol dw i am ei dynnu i chwi yn awr o Gae'r Gors. Mae'r muriau moel yno o hyd, ond wedi eu trwsio a'u diogelu. Mae'r lle tân ar ei newydd wedd, gyda distyn pren newydd sbon yn cadw cerrig y simdde yn eu lle. Y tu cefn i'r tŷ mae ffrâm bren yr adeilad seminar i'w gweld, ynghyd â ffosydd go fwdlyd a fydd yn ardd draddodiadol cyn bo hir. Ac o'r diwedd, wedi deugain mlynedd eithaf oer, dybiwn i, mae'r hen dyddyn yn cael ei ail-doi; coron draddodiadol o lechi Cymreig i anrhydeddu cartref plentyndod Dr Kate Roberts.


Gobeithiwn yn fawr y bydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau erbyn yr hydref. Yn y cyfamser, mae Cyfeillion Cae'r Gors yn bwrw 'mlaen i drefnu gweithgareddau'n hyrwyddo'r Ganolfan.

**Bydd Dewi Tomos yn traddodi'r ddarlith flynyddol yn Ysgol Gynradd Rhostryfan nos Fawrth, Mai 9fed am 7.30 o'r gloch.** Am ragor o fanylion, cysylltwch â mi yn y swyddfa ym Mhen-y-groes. Dewch yn llu.


Sian E. R. Davies
(01286) 882202 neu
caergors@ hotmail.co.uk



*Yr Adeilad Seminar – Ebrill 2006.*



*Cae'r Gors – Ebrill 2006.*



*Yr hen le tân – Ionawr 2006.*

**GWERTHFAWROGIAD**

Dymuna Gwynn Davies a theulu y ddiweddar Mary B., Bryn Eithin, Waunfawr, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd dros gyfnod salwch Mary ac am bob arwydd o gydymdeimlad a gafwyd yn ystod eu profedigaeth ddiweddar. Gwerthfawrogwyd yr ymweliadau, y cardiau a'r rhoddion hael tuag at Gymdeithas Parkinson's ac Antur Waunfawr. Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad y Parchedigion Gwenda Richards a Non Powell Davies yn yr angladd a threfniadau gofalus yr ymgymerwyr, G. Jones, Caernarfon.

Cefnogwch
ein Hysbysebion


Blodau Racca
(ALWYN AND SARAH JONES)
Ffôn **870605**

- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silc
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/*Talking Pages* 0800 600900
- Hefyd, Hamperi o Lysiau a Ffrwythau Ffres

**RHODD O'R GALON YW BLODAU**

**Gosodwr Teils**
Arbenigwr mewn waliau a lloriau
Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser
Ffoniwch Lloyd ar
**01286 830 805**



**Harddwch eich cartref gyda**
***FFENESTRI CELTIC*** *WINDOWS*
**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS**
**CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
*Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris*
**HEN YSGOL GLANMOELYN**
**LLANRUG LL55 2RG**
**(01286) 678618** (dydd)
**(01248) 670081** (nos)

**ARVONIA**

- Gwyliau cerbyd Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grŵp – yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatr a digwyddiadau.




Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126 E-bost: info@arvonia.co.uk
Gwefan: www.arvonia.co.uk

# O SIAMBAR SELWYN

**Mi ges i'r fraint o fynd i Gymdeithas Lenyddol Undebol Bethel ychydig wythnosau yn ôl a threulio orig ddifyr yn sôn am hen gymeriadau – rhai ohonynt o'r pentre – sydd bellach wedi'n gadael. Mae 'na amryw o hen drigolion Bethel wedi fy atgoffa droeon mod i'n hogyn bach eitha direidus erstalwm. Yn wir, ambell un yn mynd cyn belled â honni fy mod i yn hogyn drwg. Tybed?**

Rwy'n cofio i mam fy mygwth sawl tro mai ar y llong plant drwg ar Afon Menai y byddwn i os na fyhafiwn. Oedd, mi oedd 'na wialen fedw ar yr aelwyd hefyd ac mi brofais ei blas hi droeon, ond rwy'n barod iawn i gyfaddef fod ei chwipiadau poenus wedi gwneud mwy o les nag o loes i mi.

Roedd 'na blisman ym Methel pan oeddwn i'n hogyn bach, a phan oeddwn i'n hogyn mawr hefyd. Rhyfedd te, mae Bethel bedair gwaith y maint oedd o yn nyddiau fy mhlentyndod i ond does 'na run plisman yn trigo yn y pentre heddiw. Mi fyddai yn galw acw yn weddol aml oherwydd fy mod i, yn ôl pob hanes, yn gythral o hogyn drwg – yn gythral mewn croen! Wel – mi roeddwn i yn gythral bach direidus o leia, ond eto, diolch i'r drefn, fûm i erioed mor ddrwg fel y bu'n ofynnol i mi gael fy nwyn o flaen fy ngwell.

Oeddwn, mi roeddwn i'n ddrwgweithredwr ac yn *lleidr*. Bobol bach, *lleidr*? Do, mi fûm i a 'nghyfoedion bore oes yn euog o ddwyn giatiau'r ardal, yn unol â'r hen draddodiad Nos Calan. Mawr fyddai'r diawlio a'r chwilio ar ddydd cynta'r flwyddyn, a chyn diwedd y dydd y cyfarchion blynyddol gallwch fentro fyddai 'Flash' (dyna'r enw gafodd y plisman ganddon ni) wedi galw ym Mryn Alun i wneud ymholiadau ac yn crefu arna i i ddatgelu ble roedd giât Cefn Bach yn cuddio.

Mi fûm i a giang o ladron bach y fro yn dwyn fala' hefyd, nid am ein bod ni'n or-hoff o'r ffrwythau, ond am bod rhyw wefr i'w gael o sleifio dros ben wal Ty'n Rardd a llenwi'n pocedi â ffrwyth Gardd Eden. Ychydig o flas a gaem ar y fala' ond caem hwyl a blas ar bledu ein gilydd â'r ysbail.

Y sialens fwyaf yn y cyfnod dwyn fala' oedd dringo dros wal Persondy Llandddeiniolen, oedd yn uchel iawn. Nid dringo'r wal yn unig oedd yr her ond llwyddo i lenwi'n pocedi cyn i gi bygythiol y parchedig ŵr ddod ar ein trywydd.

Ia, dyddiau difyr, troseddol bore oes. A wyddoch chi be – fûm i rioed yn or-hoff o fala'.

Roeddwn innau, fel sawl plentyn arall, yn cael pleser o gnocio drysau a rhedeg i ffwrdd a chlymu drysau oedd gyferbyn â'i gilydd yn Stryd Ganol. Roedd hi'n hawdd gwneud hynny yn yr hen ddyddiau pan nad oedd yr un car ar gyfyl y lle.

Oedd, roedd dwyn fala', cnocio drysau a reidio beic heb olau arno yn droseddau difrifol yn nyddiau hapus fy mhlentyndod pell. Troseddau digon difrifol i achosi i 'Flash' alw yn Bryn Alun yn eitha aml. Ond roeddwn i'n droseddwr bach eitha slei – yn dysgu'r grefft. Pan fyddem ni'n mynd yn un giang ar berwyl cnocio drysau, mi fyddwn i'n rhoi coblyn o gnoc ar ddrws tŷ ni wrth basio. Pan ddeuai 'Flash' ar ei hald y dydd dilynol i gwyno am ein hymddygiad afreolus, byddai Mam yn fwy na pharod i achub cam ei Mab Afradlon, gan ymateb,

'Na, Mistar Jones bach, doedd Selwyn ddim hefo nhw neithiwr oherwydd mi fuo'r cnafon bach yn cnocio'r drws yma hefyd, nes oedd y tŷ'n crynu.'

Ia, gwyn y gwêl...

Wrth gwrs, mae 'na wahaniaeth rhwng direidi a drygioni. Yn ddyddiol bellach cawn hanes drygioni yn benawdau breision yn ein papurau newydd, a dyna hefyd ydi prif newyddion y dydd ar y radio a'r teledu. Lladrad, trais a llofruddiaeth, a hynny yn aml iawn ar arfordir gogledd Cymru, ac yn ein pentrefi gwledig ni hefyd.

Yn 1988 fe anfonais bryddest i Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd ar y testun 'Y Ffin'. Yn wir, bu bron iddi ennill y Goron. A55 oedd fy ffugenw ac roeddwn yn cyfeirio at y ffordd honno fel neidr wenwynig a oedd yn denu drwgweithredwyr a throseddwyr o Lannau Mersi i bentrefi gogledd Cymru. Y Ffin a chwalwyd rhwng Cymru a Lloegr.

Cefais fy lambastio'n hallt gan y diweddar Harry Livermore, bargyfreithiwr a chyn-faer Lerpwl. (Fo, gyda llaw, fu'n amddiffyn cefnogwyr Lerpwl ar ôl trychineb Hysel.) Do, mi ges fy mhardduo gan y cyfaill a bu trafodaethau yn y wasg ac ar Radio Mersi ynglŷn â'r gerdd.

*'Disgraceful, absolute garbage. This fellow must be out of his mind,'* dyna eiriau Syr Harry.

Erbyn heddiw, gwireddwyd fy mhroffwydoliaeth fwy byth, yn anffodus.


**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**


## Llanrug Central School 1938



*(Rhes ôl, o'r chwith) Iorwerth Jones, (Ioi); Derek Sydney, Bryngwyn; Hywel Jones, Bryn Coch; Richard Jones (Dick), Caerhos; Richard Roberts (Dick Bach Cross); Ffrancis Jones, Bryngwyn;*
*(Rhes ganol): Ellen Owen; Mair Wyn Owen; Mair Jones (Ceunant); Beryl Williams, Lôn-Las; Eirwen Williams; Mary Owen, Cwm y glo; Eirlys Lloyd;*
*(Rhes Flaen): Aled Jones; William Henry Ore; Rita Williams, Cwm y glo; Olwena Owen; Gwyneth Pritchard, Pen-Rhes; Hubert Evans; Alun Glyn, Penisarwaun?;*
*(Ar lawr): Fred ?, Tan-y-coed; Gwilym Jones (J.E.); Herbert Jones; Renell Williams.*


**TAFARN BRYNGWNA**
**Caeathro**

Croeso mawr i bawb i'r **'Bryngwna'** yng nghanol pentref Caeathro, lle ceir bwyd cartref ac amrywiaeth o ddiodydd traddodiadol, i gyd mewn awyrgylch cartrefol mewn tafarn bentref, yng nghwmni Gareth a Steffan Bowen.

*Cinio dydd Sul a byrbrydau ar gael*

Ffoniwch **(01286) 674568** i gadw bwrdd neu archebu ymlaen llaw

**Perchnogion Newydd!**
yn parhau'r traddodiad gwych

**WAVELL'S**
**Bryn ac Angela Williams**
London House, LLANRUG
Ffôn: **(01286) 673574**
**PEN CIGYDDION Y FRO**

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus, Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

**MYNNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!**

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

**RHOSTIO MOCHYN**
AR GYFER POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718788
wefan: www.ydyncig.co.uk

# Briwsion Byd Natur

## Dafydd Guto



**'D oes w'bod...**

'Does w'bod be' ddowch chi o hyd iddo'n tyfu ar ochra' lonydd. Ar yr 11ed o fis Gorffennaf yn y flwyddyn 2001 mi roeddwn, fel arfar, yn cicio sodla' fy nhra'd ar hyd ffor' ddi-darmac ar gyrion pentra Bethal, Arfon, a dyna daro ar ddeu-beth go ddiddorol.

Y gwrthrych cynta' a welwyd oedd tyfiant, rhuddgoch ran lliw ac hwnnw'n tyfu rêl boi ar goesyn *dala poethion*, (*danadl poethion*).

Achosir tyfiant o'r fath gan *rhwd ffwngi*, sef *Puccinia caricina*. Gall y rhwd ymddangos ar ddail, blagur ieuainc, a ffrwytha' planhigion. Y lliwia' arferol a berthyn i'r rhwd ydyw coch, du, gwina', melyn ac oren. Mewn rhai *ffwngi rhwd* bydd *pycniwm*, sy' ar ffurf diferion llawn sbora', yn denu pryfed, gan fod arogleuon melys iddo, a golyga hyn fod pryfed yn gyfrifol am gludo sbora' i blith planhigion er'ill ac yn lledaenu'r *rhwd ffwngi* o le i le. Ymhen amser bydd y planhigion yn gwywo a marw. Y mae ar gael hefyd *rhwd gwyn* ei liw, yr *Albugo*, ond nid af yma ar drywydd y *rhwd ffwngi* neilltuol hwnnw.

Yr ail wrthrych a welwyd oedd deilen *gwernan*. Coedan a dyf mewn lleoedd gwlybion ydyw'r *wernan*. Yn yr achos dan sylw sylwyd fod chwyddiant, fel ryw frech wen, yma ac acw ar y ddeilan.

Achosir y chwyddiant gan *widdona'* o'r genyn *Eriophyes*, sef anthropida' bychain, oddeutu 0.1 mm (0.04 modfadd ran hyd), o deulu lluosog yr infertebratiaid, (sef creaduriaid y mae iddynt goesa' cymalog!) Mae ganddynt, rhan amla', bedwar pâr o goesa' ac yn byw mewn cynefinoedd amrywiol, gan gynnwys dyfroedd ffres a hyd yn oed ddyfroedd heilltion, oddi tan y pridd ac ar blanhigion. Paraseitia' ydynt, h.y. byw ar er'ill y maent, yn union fel y gwna chwain, llau, a ballu, ymhlith blew mamaliaid, gan gynnwys boda' dynol!

'Does w'bod be' ddowch chi o hyd iddo ym myd Natur. Ond wedyn 'does dim byd sy'n wirioneddol newydd oherwydd fe geir cyfeiriada' at anhwylderа' ymhlith planhigion, gan gynnwys *rhwd ffynga'*, yn y Beibl, gyda newyna' mawrion yn dyfod yn eu sgil, a dengys rhai ffosilia' 250 miliwn o flynyddoedd yn ôl fod afiechydon yn cym'ryd eu tolc ar blanhigion. Ie, 'does w'bod be', yn nag oes!

**Pentrefi Nant Peris, Llanberis, Deiniolen**

**Cwm y Glo, Llanrug, Penisarwaen**
**Brynrefail, Pontrug ayyb –**
**sef Talgylch Ysgol Brynrefail**

Drwy garedigrwydd Bwrdd Golygu Eco'r Wyddfa fe ymddengys hysbysiad yn Rhifyn Mehefin a Gorffennaf o'r Eco. Hysbysiad fydd hwn yn gwahodd ceisiadau am grantiau o Gronfa Goffa R. H. Owen. Gwyliwch allan amdani!


**GWYNANT PIERCE**

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

**Uned 1, Fferm Bryn Afon**
**LLANRUG**
**Ffôn: (01286) 674183**
**(0589) 899901**

FINE ART TRADE GUILD
**ORIEL CWM**
**Cwm y Glo**
**Ffôn/Ffacs: (01286) 870882**
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
**Richard S. Humphreys**

**Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?**
**YSWIRIO EICH TŶ**
(i arbed colled i chi);
**YSWIRIO EICH CAR**
(i arbed colled i chi ); neu
**YSWIRIO EICH BYWYD**
( i arbed colled i'ch teulu)
Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda **CDH**
**Andre (Bethel/Llanberis)**
**Bryn (Môn)**
**Euryn (Caernarfon a'r cylch)**
**John Eifion (Penisarwaun)**
**CDH**
Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
**Ffôn: (01248) 355055**

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING MACHINE CENTRE**
**21 Stryd Fawr**
**PORTHAETHWY**
Ffôn: **(01248) 714043**
neu **Caernarfon**
Ffôn: **(01286) 674520**
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc


## UN FUNUD FACH

**FEDRA I DDIM**

Pe digwydd i chi'm gweld yn prynu teledu newydd y dyddiau nesa 'ma, byddwch yn gwybod fy mod wedi taflu bricsen at yr un sydd acw.

Nid bod gen i ddim yn erbyn yr hen deledu, cofiwch. Mae o'n byhafio'n eitha. Peter Snow ydy'r drwg! Hwnnw, a'i fêts, a'u paldaruo parhaus. sydd wedi codi 'ngwrychyn. Ers wythnosau mae nhw wedi clochdar am fanteision y byd digidol a'r amrywiol sianelau radio a theledu sydd gan y BBC ar ein cyfer: 'BBC3 hyn a BBC4 y llall; CBeebies rŵan a CBBC wedyn'. A minna'n trio ngora i beidio gwylltio! Waeth i chi heb â hefru, Peter bach, dydy teledu digidol daearol ddim i'w gael yn Llanberis! Dwi'n gwbod y gallwn i brynu soser, ond pam ddylwn i orfod gneud hynny â'r addewid gennym y bydd Cymru gyfan yn 'ddigidol' cyn bo hir? Plis, Mr Snow, ga'i lonydd. Byddai'n dda gen i gael y CBeebies a'r BBC4 y bûm yn talu amdanynt ers blynyddoedd gyda'm trwydded deledu. Ond, clywch, FEDRA I DDIM!

A 'fedra i ddim' yw ymateb llawer i'r Efengyl. Mae nhw'n clywed y gwahoddiad i gredu yng Nghrist, ac yn deall yr addewid am y bywyd newydd i'r sawl sy'n gwneud hynny. Mae nhw'n edmygu, a hyd yn oed yn cenfigennu wrth y rhai sy'n tystio i'r llawenydd a'r nerth a ddaw o adnabod yr Arglwydd Iesu. Ond 'fedra i ddim' yw hi. 'Fedra i ddim credu fel chi. Fedra i ddim cael yr un sicrwydd â chi.' Wrth gwrs y medrwch!

Un o ryfeddodau'r Efengyl yw ei bod ar gael i bawb. Ac un o freintiau pregethwr a phob tyst i Grist yw cael gwahodd pobl i droi at yr Iesu gan addo bod holl fendithion yr Efengyl ar gael i bwy bynnag sy'n barod i'w derbyn. Wrth wahodd pobl at Grist, rydym yn cynnig iddynt Waredwr y maent ei angen ac y mae modd iddynt ei dderbyn. Dydyn ni ddim yn cynnig bywyd sydd y tu hwnt i'w cyrraedd. Dydyn ni ddim yn addo pethau y mae'n amhosibl iddynt eu derbyn. Peth ofer a chreulon fyddai hynny! Cynnig ydym fendithion, a bywyd, a pherson sydd o fewn cyrraedd pawb, ond iddynt ofyn amdanynt. Nid oes angen bod yn grefyddol i dderbyn Iesu Grist. Nid oes angen bod yn ysbrydol. Nid oes angen bod yn dda. Nid oes angen bod yn well na gwaeth na neb arall. Nid oes angen bod yn gryf, nac yn wan. Nid oes angen bod yn iach, nac yn glaf. Nid oes angen bod yn gyfoethog, nac yn dlawd. Does dim amodau, ond ein bod yn barod i'w groesawu Ef i'n bywyd.

JOHN PRITCHARD

# BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

CLWB BRO BETHEL. Rita Williams oedd y wraig wadd yng nghyfarfod y mis yma ac yn dilyn y croeso arferol gan y Llywydd, Goronwy Jones, cafwyd orig gartrefol braf yn ei chwmni. Rhyw fath o 'lobsgows' oedd ganddi ar ffurf cwis. Cafodd pawb gyfle i brocio'r meddwl wrth ymateb i'r cwestiynau, adnabod wynebau pobl enwog, yna enwi alawon gwerin ac ymuno i'w canu. Talwyd gair o ddiolch gan Jenkin Griffiths. Dymunwyd yn dda i Dafydd a Beryl Parry ar achlysur dathlu hanner cant o flynyddoedd o fywyd priodasol a chyhoeddwyd mai dyddiad y trip fydd 7 Mehefin. Y gost fydd £6.00 a dymuna Elizabeth Evans a Megan Humphreys dderbyn enwau erbyn y cyfarfod nesaf, sef 2 Mail, a hynny yng nghwmni Oscar Evans.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL.

Y swper pentymor fydd y cyfarfod olaf eleni i aelodau'r Gymdeithas a hynny ar nos Fawrth, 16 Mai. A fuasai pawb sy'n dymuno cyd-wledda roi gwybod i Nora Parry (670588) neu Sheila Roberts (671207) erbyn 12 Mai.

CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Enfys Roberts, 37 Bro Eglwys, ar lwyddo gyda theilyngdod mewn arholiad Piano, Gradd 1 yn ddiweddar.


DIOLCH. Dymuna Sue Roberts, 5 Tan-y-Cae, ddiolch o galon i'w theulu, ei ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, anrhegion, galwadau ffôn a chymwynasau a dderbyniodd ar ôl ei llawdriniaeth ddiweddar yn Ysbyty Gobowen.

MERCHED Y WAWR. Nos Fercher, 5 Ebrill, cyfarfu'r gangen yn Ysgol Gynradd Bethel a chroesawyd pawb yn gynnes gan yr is-lywydd, Anne Elis. Darllenwyd llythyr oddi wrth y llywydd, Sian Davies, yn diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson yng nghwmni Mererid Hopwood. Atoffwyd yr aelodau bod newid yn y rhaglen, a hysbyswyd hwy mai Eirlys Williams fydd yn dangos sut i baratoi gwahanol fwydydd nos Fercher, 10 Mai, a diolchwyd iddi am gytuno i lenwi'r bwlch.

Croesawyd Anita Long i gymryd y noson a diolchwyd iddi am ddod i'r adwy yn absenoldeb Pat Jones. Roedd wedi dod â nifer o enghreifftiau o gardiau tlws iawn i'w dangos, a soniodd ychydig am sut yr oedd wedi eu gwneud ac am y gwahanol ddefnyddiau a'r offer ar gael i wneud cardiau. Yna, dan ei chyfarwyddyd, bu'r aelodau yn ddiwyd iawn yn gwneud cerdyn Pasg, a mwynhaodd pawb y profiad. Diolchodd Gwyneth Williams iddi, ar ran y gangen, am noson bleserus a chreadigol.

Joyce Roberts ac Edith Jones oedd yn gofalu am y baned a'r raffl, ac enillydd y raffl oedd Sheila Roberts.

LLONGYFARCHIADAU unwaith eto i Richard Llwyd Jones, Gohebydd Chwaraeon diwyd yr *Eco*. Dydd Gwener y Groglith, fo oedd bardd cadeiriol Eisteddfod Bontnewydd, gyda'i awdl 'Cysgodion', a gafodd gryn ganmoliaeth gan y beirniad, John Gruffydd Jones, Abergele.



ADRAN YR URDD. Daeth llwyddiant i'r canlynol yn Eisteddfod Sir yr Urdd ar ddydd Sadwrn, 25 Mawrth. Parti Unsain 1af, Parti Llefaru 1af, Ymgom 3ydd a Lowri Ann 3ydd ar yr Unawd dan 12 oed. Yn yr Eisteddfod Dawnsio Disgo daeth Angylion Bach Kelly yn 1af.

Llongyfarchiadau mawr i chwi i gyd a phob lwc i'r Parti Unsain, y Parti Llefaru ac i Angylion Bach Kelly yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar ddiwedd mis Mai. Diolch i'r holl hyfforddwyr sydd wedi bod yn brysur iawn dros yr wythnosau diwethaf yn hyfforddi'r plant. Mae wedi bod yn gyfnod prysur iawn.

Bu sawl un yn cystadlu yn y gwaith celf. Daeth y canlynol yn fuddugol yn y cylch: Gwaith Creadigol 2D Bl 3 a 4: 1af i Lowri Huws; Bl 5 a 6: 2il i Fflur Huws; Gwaith Creadigol 3D Bl 2 ac iau: 1af i Benjamin Lloyd Hunter. Cafodd eu gwaith fynd ymlaen i'r Sir a daeth Lowri Huws yn 3ydd. Llongyfarchiadau i chwi i gyd.

Cafwyd dau weithgaredd yn yr Adran cyn y Pasg. Ar nos Fercher, 22 Mawrth, cafwyd sesiwn chwaraeon ac yna i ddiweddu tymor hynod o brysur ar 5 Ebrill, bu'r plant yn gwneud cardiau a chacennau Pasg.

Mae nifer o weithgareddau ar y gweill yn ystod yr wythnosau nesaf. Bydd tîm o'r Adran yn cymryd rhan mewn twrnament pêl-droed yr Urdd ar nos Fercher, 26 Ebrill a'r tîm genethod ar nos Iau, 27 Ebrill. Yr wythnos ganlynol, ar nos Fercher, 3 Mai, bydd cyfle i'r holl aelodau ymweld â'r Orsaf Dân yng Nghaernarfon.

Ar nos Fercher, 23 Mai, bydd plant yr Adran a'r Uwch Adran yn cynnal noson o adloniant. Bydd yn gyfle i weld yr aelodau fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn perfformio eu heitemau. Bydd elw'r noson yn mynd tuag at gostau mynd â'r aelodau i'r Eisteddfod. Bydd mwy o fanylion yn nes at yr amser yn y siop a'r Swyddfa Bost.

UWCH ADRAN YR URDD.

Llongyfarchiadau i Danielle Kavanagh ar ddod yn gyntaf am Ddawnsio Disgo dan 15 oed ac i Sasha Williams ar dod yn gyntaf dan 19 oed. Hefyd daeth y Grŵp Dawnsio Gwerin yn gyntaf. Pob lwc i chi i gyd yn y Genedlaethol.

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant mewn Gwaith Celf. Lluniadu 2D Bl9: 1af Ellen Price; 2il Robin Llwyd Jones; Bl7 ac 8: 2il Greta Fflur Jams. Gwaith Creadigol 3D Bl7 ac 8: 1af Greta; 2il Bronwen Price. Ffotograffiaeth Bl 7 ac 8: 1af Dyfan Coles; 2il Greta Fflur; 3ydd Gerallt Bryn.

Aeth yr holl waith ymlaen i'r Eisteddfod Sir a daeth y canlynol yn fuddugol: 2D: 2il i Ellen Price; 3ydd i Robin. 2D: 1af i Greta; Gwaith 3D: 1af i Bronwen; 2il i Greta. Ffotograffiaeth: 2il i Dyfan; 3ydd i Greta.

Bydd gwaith Greta a Bronwen yn mynd ymlaen i'r Genedlaethol. Gobeithio y gwelwn eich gwaith yn y Babell Gelf. Pob lwc, genod.

DYMUNA Rhys, Erddig, ddiolch i gymdogion, ffirndiau a theulu am y cardiau a rhoddion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

DYMUNA Tîm Pêl-droed dan 9 oed, Clwb Ieuenctid Bethel a'r hyfforddwyr, ddiolch yn fawr iawn i Robat o gwmni GBS, Bronant, am ei rodd hael.

Dyma lun o'r hogia yn eu cotia newydd a brynwyd gyda'r arian. Diolch eto.




**Am gymorth:**
- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

MANTELL GWYNEDD
Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

**cysylltwch â Mantell Gwynedd**
– yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
**01286 672626 neu 01341 422575**
Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271



**Gwesty Dolbadarn**
**LLANBERIS Ffôn: 870277**



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff


# DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

DIOLCH i Glwb Orwig am blannu yr holl gennin Pedr o gwmpas y garreg goffa i'r chwarelwyr yn yr Allt Ddu. Maent yn un carped melyn o gwmpas y garreg ac yn edrych yn fendigedig yn llygad yr haul. Mawr ddiolch i'r Clwb am ddod â dipyn o liw i'r Allt Ddu.

Y PASG. A gwyliau'r Pasg erbyn hyn wedi dirwyn i ben yr oedd yn braf iawn cael mynd i'r fynwent ar Sul y Blodau. Yr oedd Mynwent Macpelah Deiniolen yn rhyfeddol o dwt a rhaid unwith eto ganmol Cyngor Gwynedd am y gwaith y maent yn ei wneud arni. Diolch yn fawr iawn iddynt, ac o gael yr holl flodau ar y beddi, yr oedd yn edrych yn arbennig o hardd.

Yna, ar gyfer nos Iau Cablyd, sef y nos Iau cyn Gwener y Groglith, cafwyd oedfa Gymun Undebol yng Nghefnywaun. Mae'n rhaid dweud mai siomedig oedd nifer y rhai a ddaeth ynghyd ond cawsom ein hatgoffa am yr aberth fawr a wnaed ar Galfaria. Gwasanaeth syml iawn o dan ofal ein gweinidog, y Parch John Pritchard, gawsom, ond er mor syml yr oedd yn effeithiol dros ben. Diolch yn fawr iawn i Mr Pritchard.

Sul y Pasg oedd Sul y Cyfarfod Pregethu yng Nghefnywaun. Yn y bore cawsom gwmni y Parch William John Lewis (un o blant yr ardal, wrth gwrs) a braf oedd gweld y plant yno efo'u rhieni. Yn yr hwyr cawsom gwmni y Parch Emrys Thomas, Caernarfon, yntau fel arfer yn wych.

Y peth rhyfeddol am y ddwy bregeth oedd i'r ddau gennad gael yr un testun, sef o I Corinthiaid, Pennod 15. Diolch yn fawr iawn i'r ddau am eu cenadwri amserol iawn.



# Ar Ben Arall y Lein



Gwnes addewid y mis diwethaf bod y bocs sebon wedi ei gadw, a felly mae pethau, diolch i'r drefn. Dim byd i gwyno amdano, a ydi pethau yn gwella tybed?

Efallai mai rhan o'r ateb yw nad wyf wedi cael llawer o amser i gynhyrfu'r dyfroedd gan fod achlysur go bwysig yn digwydd yn nechrau 2008, sef canmlwyddiant y Gymdeithas. Be gawn ni wneud i ddathlu dod i oed? Un digwyddiad sy'n angenrheidiol, fel gyda phopeth arall sy'n croesi'r trothwy yma, hynny yw cyhoeddi llyfryn bach wrth gwrs.

Does yr un sefydliad cant oed werth ei halen heb gyhoeddi rhywbeth i groniclo'r daith, yn enwedig o ble rydym wedi cychwyn a lle, ac yn fwy pwysig sut mae'r sefyllfa heddiw. Wel i ddechrau, yn ôl be fedra i weld, fod y brydles gyntaf wedi ei thynnu allan yn nechrau 1908 yn enw Cymdeithas Pysgotwyr Caernarfonac fe ddefnyddiwyd yr enw yma hyd at ddiwedd yr Ail Ryfel Byd. Wedyn yn y cyfnod rhwng 1948 a 1952 fe newidwyd yr enw i'r teitl presennol. Mae cofnodion y cyfnod yma ar goll yn anffodus.

Yn ystod bywyd y clwb mae llawer o benderfyniadau a newidiadau wedi mynd a dod. Y penderfyniad pwysicaf oll oedd yr un yn 1980 pan gytunwyd i wneud ymdrech i brynu cyn gymaint â phosib o hawliau pysgota'r fro. Be sbardunodd hyn oedd bod rhai ohonom wedi gorfod gadael yr hen ardal oherwydd ein gwaith. Ffodus o beth oedd hyn ar ran pysgota gan ein bod wedi gweld sut oedd pethau'n datblygu yn y wlad bell. Dim 'sgota i'r gymuned leol gan fod cwmnïau ac unigolion wedi prynu popeth ac felly roedd arwyddion ym mhobman 'Pysgota Preifat'. Roedd hyn i ddod yma – ond nid os y buasem yn cael ein troed yn y drws yn gyntaf.

I fod yn deg ar y pwynt yma, fe gawsom gefnogaeth gref a chadarn gan ffermwyr a thirfeddianwyr y fro, gan eu bod hwythau yn gweld fod eisiau cadw rhywbeth gwerthfawr yn lleol. Diolch iddynt oll am eu gweledigaeth yn trosglwyddo eu hawliau i'r gymdeithas, a hefyd yr un diolch i'r ychydig sydd yn dal i adael i'r clwb brydlesu eu hawliau.

Cam mawr arall yn ein hanes oedd yn 1996, pan sefydlwyd y clwb fel Cwmni. Gorfodwyd ni i symud i'r llwybr yma oherwydd maint daliad eiddo'r clwb. Nid oedd yn deg disgwyl i bedwar ymddiriedolwr ysgwyddo'r baich o ddal yr holl eiddo yn eu henwau. Hefyd, wrth gwrs, mae'n llawer haws ceisio am grantiau ac ymdrin â materion ariannol wrth weithio drwy gyfarwyddwyr.

Mae tyrau o ffeiliau, llythyrau, llyfrau cofnodion, lluniau a myrdd o drugareddau eraill yma ym Methel sy'n ymwneud â'r gymdeithas. Ymysg rhain i gyd mae nifer o lythyrau rhwng y ddiweddar Robin Rowlands, Llanberis, a'i gyfaill genweiriol o Lundain, o'r cyfnod cyn ac yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Tydi sgota ddim wedi newid llawer yn y cyfnod yma, ond yn sicr mae trafnidiaeth wedi dirywio. Roedd brithyll a thorgoch yn cael eu rhoi ar y trên olaf o Lanberis ac yn cael eu bwyta i frecwast yn Llundain ychydig oriau wedyn. Mi fuasai'r cwbl wedi drewi cyn cyrraedd heddiw.

Byddai torgoch hefyd yn mynd ar yr un trên ac yn cael eu gwerthu ar y farchnad yn Maenceinion, eto ymhen ychydig oriau.

Rhaid imi wylio neu mi fyddaf wedi sgwenu'r llyfryn yma yn yr *Eco*, felly beth am dipyn o gymorth? Rwyf wedi cael llawer o wybodaeth gan ddarllenwyr, ond fe fuaswn i'n hoffi gael mwy o wybodaeth neu gopïau o luniau, sef rhywbeth am sgota torgoch, a lluniau, yn enwedig o'r cychod arbennig fyddai'n cael eu defnyddio yn Llanberis. Mae gennyf un darlun sy'n eu dangos fel *'punt'*, hefyd unrhyw hen storïau. Mae'n bwysig i'w cadw i'r cenedlaethau i ddod. Dyma gyfle gwych i ni i gyd wneud rhyw gyfraniad bach.

Gallwch gysylltu a mi ar y ffôn (01248) 670 666 neu e-bost: huw.hughes@lineone.net

HUW PRICE HUGHES


***Fframia*** **Gwasanaeth Fframio Lluniau**

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

**Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:**
**WILLIAM SELWYN • KEITH ANDREW**
**KEITH BOWEN • ROB PIERCY**

**PARC PADARN, LLANBERIS (870922)**
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)


# CWM Y GLO


Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275


DIOLCH i'r criw bach ffyddlon a ddaeth i blygu'r rhifyn diwethaf o'r *Eco*.

LLONGYFARCHIADAU i Vera Price, Tan-y-Graig ar dderbyn 'Belt Du' mewn Karate.

CAPEL Y TABERNACL. Cynhaliwyd y Gymanfa eleni yng Nghapel Bosra, Penisarwaun. Cymerwyd y rhan agoriadol gan Mr Evie Jones, Penisarwaun, y rhan gyntaf gan blant Ysgolion Sul Bosra, Ebenezer a Chapel Coch, ac roedd yr ail ran yng ngofal Mererid Mair, Gweithwraig Ieuenctid a Datblygu Eglwysig. Diolchwyd i'r Llywydd, y Parch John Pritchard; i'r organyddes, Mrs Ann Ifans; i Mererid Mair ac i bawb a gymerodd ran er llwyddiant y Gymanfa gan Mr Bob Lloyd, Llanberis.

UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu'r aelodau a'u ffrindiau yn yr Ysgol Gymuned nos Lun, 3 Ebrill.

Croesawodd Mrs Dorothy Jones y gŵr gwadd, Mr Hywel Williams AS, i'r cyfarfod. 'Rhown Derfyn ar Dlodi' oedd ei destun a chafwyd noson ddiddorol iawn. Cafodd pawb gyfle i holi Mr Williams ar y pwnc a diolchwyd iddo am y sgwrs gan Dorothy.

Cafwyd y cyfarfod arferol a phaned. Adroddwyd gweddi Undeb y Mamau a thrafodwyd materion a ddaeth i law gan Dorothy. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Kathleen Jones a Mrs Iola Jones (Cangen Prynhawn Caernarfon). Darllenwyd e-bost wedi ei dderbyn oddi wrth Mrs Margaret Latham sydd ar hyn o bryd yn America.

Yn gofalu am y lluniaeth oedd Mrs Gwyneth Roberts a Mrs Hilda Orritt. Rhoddwyd y raffl ganddynt hefyd ac fe'i henillwyd gan Miss Meira Williams. Diolchwyd iddynt gan Mrs Marjorie Roberts. Terfynwyd trwy adrodd y gras. Cyfarfod nesaf ar 8 Mai.


**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**
**CANOLFAN CARPEDI**

**WAUNFAWR**

Ffôn/Ffacs:
**(01286) 650291**

**Ar Agor**
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
**Ar Gau**
Sul a Mercher

Dewis eang o Welyau a *3P/Suites*.
Llenni *Venetian* a Llenni *Roler*.
5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?

**GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK**



**DODREFN PERKINS**
**(Safle'r hen Nelson)**
**CAERNARFON**

**Ffôn: (01286) 676 040**

- **Pob math o ddodrefn tŷ**
- **Cegin, 'stafell fyw, llofft**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Carpedi, Llenni a Lloriau Pren**



**Dylan Griffith**
**TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL**
**TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN**
**Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac ymhellach i ffwrdd**
Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.
24 awr y dydd
Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**
Symudol: **07778 127394**



**HEFYD**
**CERBYDAU CLASURol YR WYDDFA**



Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill

# CHWILOTA



## MWY O HANES MARGED UCH IFAN

**Yn ystod blynyddoedd cynnar yr *Eco* bu cryn ohebu ynglŷn â'r cymeriad hynod, a bu sôn amdani'n achlysurol wedyn. Yn ystod y mis a aeth heibio anfonwyd mwy o wybodaeth amdani gan W. Arvon Roberts o Bwllheli; un sydd eisoes wedi cyfrannu i'r golofn hon, yn fwyaf arbennig ar gysylltiadau Americanaidd.**

Daeth ar draws cofnod mewn cylchgrawn o'r enw *London Saturday Journal* am y flwyddyn 1839 yn disgrifio gwibdaith yng ngogledd Cymru, a cheir cryn dipyn o hanes Marged yn y disgrifiad. Rhaid cofio mai prin ddeng mlynedd ar hugain ers marw Marged yr ysgrifennwyd yr hanes, ac felly, mae'n sicr fod cof trigolion lleol amdani yn dal yn fyw. Er hynny, does fawr ddim gwybodaeth newydd yn cael ei ychwanegu at yr hyn a wyddom yn barod am y greadures amryddawn hon.

Yn hytrach, ceir darn o farddoniaeth wedi ei ysgrifennu iddi gan ryw Mr Hutton, gwerthwr papur ysgrifennu o Birmingham. Fel hyn yr adroddir ei hanes mewn mydr ac odl ganddo:

'Mhlith creigiau Llanberis, lle ni sangodd troed,
Ni welodd ond adar eu copa erioed,
Lle nid yw yr ardrem ond mynydd a dŵr,
Er hynny rhydd rheini hyfrydwch yn siŵr;
Milltiroedd yn ddistaw a gewch ar eich hynt,
Oddieithr pan glywoch chwi chwythiad y gwynt;
Anaml gymdogion, anamlach gwerylau,
Anamlach o gwbl wirod da a barilau;
Nid llawer a werir am sgidiau a sanau,
Adeiladu, neu gampau, neu fwyta neu rentau;
Nid y'nt yno'n gwledda ar foethau yn hael,
Eu lluniaeth yw'r symlaf a ellir ei gael;
Eu hiechyd a'u heddwch y maent yn blethedig,
A chan na ddisgwyliant, nid y'nt yn siomedig;
Eu merched y'nt nerthol, caledwaith a wnelant,
Â'u dwrn trawant lawr y dyn a'u tramgwyddant;
Bu fyw Peggy Evans fan yma yn hwy
O feithion flynyddau na naw deg a dwy;
Codymai a ffidlai, a rhwyfai'n ddiflin,
A daliai lwynogod yn gynt nag un dyn;
Ar glychau hi fedrai ber-ganu heb ffael,
Nes swyno eich clustiau, ond iddi eu cael;
Mewn llety o wellt roedd yn iach ac yn gryf,
Gorchmynai y llif-bwll, a thriniai y llif;
Ac er i oer feddrod ei derbyn i'w gôl,
Gadawodd mi wn, rai chwiorydd ar ôl.

Roedd y bardd wedi camgymryd ei hoedran – ond yn fwriadol felly, mae'n debyg, er mwyn y mydr a'r odl! Dywedir hefyd ei bod wedi gadael 'rhai chwiorydd ar ôl'. Roedd hyn hefyd yn gywir, gan fod un o'i chwiorydd yn byw yn y Gelliod yn Nhan y Coed. Fe'i claddwyd hi a'i gŵr ym mynwent Llanrug.

Yn ôl y disgrifiad, dywedir fod gan Marged un ferch, ond nad oedd dim nodedig yn perthyn iddi hi.

Llawer o ddiolch am drafferthu i gopio'r gerdd a'i hanfon ar gyfer darllenwyr yr *Eco*.

**Cynghrair Pêl-droed Ieuenctid Arfon**

Yn rhifyn Mawrth gwneuthum gais am fwy o wybodaeth am y gynghrair ieuenctid hon a sefydlwyd yn ystod blynyddoedd yr Ail Ryfel Byd. Daeth llythyr diddorol gan Ifan W. Williams o Langefni (Brynrefail gynt) yn adrodd peth o hanes a helyntion rhai o'r timau a fu'n cystadlu yn y gynghrair.

Hyd haf 1944 roedd yn ddisgybl yn Ysgol Sir Brynrefail, ac yn gapten y tîm pêl-droed. Gan mai amser rhyfel oedd hi, doedd fawr o gemau ysgolion yn cael eu chwarae ar foreau Sadwrn, ond roedd nifer go dda o aelwydydd yr Urdd yng Ngwyrfai, a dechreuwyd chwarae gemau cyfeillgar rhyngddynt. Yn ystod 1943–44 sefydlwyd cynghrair answyddogol, a daeth Aelwyd Llanberis yn aelod ohoni. Y drefn oedd chwarae gêm i'r ysgol yn y bore, ac yna, chwarae i dîm yr aelwyd yn y pnawn.

Y diweddar Bob Owen, Moss Bank, Llanberis, oedd yn gyfrifol am dîm pêl-droed Aelwyd Llanberis, a châi'r gemau cartref eu chwarae ar gae Ddôl y Goeden. Weithiau, byddai gêm yn cael ei threfnu gydag un o dimoedd y fyddin, a oedd yn gwersylla ac yn ymarfer yn Llanberis a'r cyffiniau gydol amser y rhyfel. Cweir fyddai'r hanes bob tro yn y gemau rheini, gan fod y milwyr yn llawer rhy chwim ac yn gorfforol gryfach na'r llafnau ifanc dan ddeunw oed a chwaraeai i'r Aelwyd.

Yr aelwydydd yn y gynghrair oedd Y Felinheli, Caernarfon, Rhosgadfan, Y Groeslon a Phen-y-groes. Dyma ddisgrifiad Ifan W. Williams o'r modd y byddid yn teithio i'r gemau oddi cartref: *'Arferem deithio yn un o dacsis Peter Angel; y tîm o un ar ddeg a dau o swyddogion yr aelwyd. Bob Owen fyddai'n dreifio ac yn llywio, a'r un oedd yn eistedd agosaf ato yn newid gêr! Bob yn gweiddi "newid hi!" fel bo'r angen.'*

Mae'n enwi'r aelodau mwyaf sefydlog o'r tîm: *'Twm John yn y gôl, Rennel Dinorwig a Jaci Griffith yn gefnwyr, Bert Llanrug, hen Em a Wil Lôn Bost yn hannerwyr, Glyn Becs, Elwyn, Eurwyn, Jaci Lewis a minnau yn flaenwyr.'*

Pan ddychwelodd Ifan Williams o'r fyddin yn 1948 roedd Cynghrair Caernarfon a'r Cylch wedi ei hen sefydlu, a'r gynghrair ieuenctid wedi peidio â bod.

Oes eraill o aelodau'r tîm ieuenctid hwn yn medru ychwanegu mwy o wybodaeth neu atgofion am y cyfnod?

**Hiraeth am Lanrug**

Prin fod yr *Eco* o'r wasg na ddaeth ateb gan R. Williams, Llain Gwta, Llanrug, yn adrodd mai o Dan y Coed y deuai Sam Roberts (awdur y penillion i Hen Fynwent Deg Bryn Llan). Roedd yn un o deulu Pen Boncan (sef yr hen enw ar Bryn Hyfryd, Tan y Coed). Roedd brawd iddo, William Roberts, yn byw yn 12 Tai Bryngwyn, ond mudodd Sam a'i briod, Leah, o Gae Newydd, Llanrug, i'r America. Roeddent yn feibion i Evan Roberts, Tai Newyddion, Tan y Coed; yntau'n fab i William Roberts a Margaret (o Goedanna, Llannerch-y-medd). Merch i William Roberts oedd Elisabeth, mam Syr John Morris Jones, a briododd ag un o deulu'r Rallt, a symud i Fôn.

Meddai Mr Williams: *'Roedd rhai o deulu Tai Newyddion yn bur llengar, ac o'r un cyff â Syr John Morris Jones. Roedd Elizabeth Morris (gwraig J.R.Morris y llyfrwerthwr o Gaernarfon) yn gyfnither i Syr John, ac ymddiddorai hithau yn yr Awen gan ennill gwobrau mewn eisteddfodau lleol – a hynny yn erbyn ei gŵr yn aml! Roedd Sam Roberts yn gefnder iddi o du ei dad.'*

Gyda diolch am ymateb mor brydlon a chynhwysfawr.

**Y Cyfeilydd o Gwm y Glo**

Wedi cyhoeddi wyneb-ddalen Cymanfa Groeso a gynhaliwyd yng Nghapel Mawr, Llanrug yn 1919, a holi am y cyfeilydd, daeth galwad ffôn gan Mrs Mair Williams, Cwm y Glo, yn rhoi rhywfaint o hanes Alun R. Williams. Mae'n credu iddo briodi â merch o Gaeathro. Symudodd i fyw i 'Eryl', Stryd Llyn, Pwllheli, a'i fod yn athro yn un o ysgolion y dref. Roedd hyn tua dechrau'r 1930'au. Roedd ganddynt dri o blant, sef Eirlys, John ac Alwyn. Bu farw'r wraig, ac ailbriododd Alun R. Williams ag Edith, gweddw Hugh Ellis, a gadwai siop Seiont House, Cwm y Glo.

Esgyrn sychion yn unig sydd yma, ond efallai y gall eraill o'r darllenwyr roi mwy o wybodaeth?

**Ffynnon Beuno**

Methais hyd yma a darganfod unrhyw wybodaeth ym mhapurau W. Gilbert Wiliams, ond cadarnhawyd tystiolaeth Huw Williams o Lanrug gan Fap Degwm plwyf Llanwnda, sy'n cyfeirio at yr union gae ble lleolwyd y ffynnon fel 'Cae Ffynnon Beuno'.

Llawer o ymatebion wedi bod yn ystod y mis diwethaf, a diolch i bawb am gysylltu. Siawns na chawn gyfle yn ystod misoedd yr haf i grwydro'r fro a chael lluniau rhai o hen olion trigolion cynharach y fro. Cofiwch gysylltu gydag unrhyw ymholiad neu bwt o wybodaeth, â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (Ffôn: 01286 673515).




**Hywel Williams**
Aelod Seneddol



**Alun Ffred Jones**
Aelod Cynulliad

**Etholaeth Caernarfon**

**CYMORTHFEYDD**

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076** i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

**Swyddfa Etholaeth**

**8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE**


neu

e-bost: **williamsgw@parliment.uk**

# LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

YSGOL GYNRADD LLANRUG
YR URDD. Llongyfarchiadau i Chloe Roberts Bl5 ar ddod yn fuddugol yn y gystadleuaeth Dawnsio Disgo dan 12oed yn yr Eisteddfod Sir. Bydd yn awr yn cynrychioli Sir Eryri yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Ninbych. Hefyd mae hi ac Anna Wyn Bl5 yn aelodau o'r grŵp Dawnsio Disgo dan 12oed fydd yn cystadlu yn Ninbych. Daeth gwaith arlunio Sion Eifion Land Bl1 yn fuddugol yn y cystadlaethau arlunio dan 8oed. Bydd ei waith ef yn cael ei feirniadu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Dymunwn bob lwc iddynt.
GWAITH THEMA. Daeth cwmni'r Frân Wen i'r ysgol i berfformio eu gwaith 'Dwi isio dringo coeden' gan Angharad Tomos. Bu ymateb plant Bl1 a Bl2 yn ardderchog i'r ddrama ac maent yn awr yn eiddgar i gychwyn ar eu thema 'Coed' ar ôl gwyliau'r Pasg.
YMWELIAD. Fel diweddglo i'w gwaith thema am y tymor aeth disgyblion Bl3 a Bl4 ar ymweliad â chaer Rufeinig Segontiwm yng Nghaernarfon.
CROESO YN ÔL. Dechrau tymor yr haf bydd Miss Jenkins yn dychwelyd yn ôl i'r ysgol. Bymunwn ddiolch i Mrs Rita Williams am ei gwaith caled a'i chwmni yn ystod y ddau dymor diwethaf.
LLONGYFARCHIADAU i Siôn Rhys Morris o Lanrug ar fod yn fuddugol dan 7 oed yn



Nhwrnament Pêl-droed Llangefni dydd Llun, 17 Ebrill. Dalier ati i sgorio a phwb lwc i'r dyfodol.
+ LLUN
SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb Cant am fis Ebrill oedd:
£20: Mrs E. Davies, Llys Alaw;
£7: Mrs D. Fisher, 6 Hafan Elan;
£5: Mr G. Hughes, Eithinog.
DIOLCHIADAU.
DYMUNA Mrs J.E. Jones, 15 Hafan Elan, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu caridau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 90 oed.
Llongyfarchiadau mawr i chi, Mrs Jones, oddi wrth y pentref.
DYMUNA Dorothy a Gordon Carter, Didfa, ddiolch yn fawr iawn i ffrindiau a chymdogion am yr holl flodau a chardiau a dderbyniwyd ar achlysur eu profedigaeth yn colli chwaer annwyl iawn, sef Mrs Margaret Rose Hughes (Pleming gynt) ar 23 Marth. Anfonwn ein cydymdeimlad i chwithau fel teulu.
DYMUNA Mrs Lily Horman a'r teulu ddatgan eu diolch i'w ffrindiau a'u cymdogion am fynd â Lily i'r ysbyty i weld Jim ac am eu cydymdeimlad, eu cardiau, llythyrau, y galwadau ffôn a'r rhoddion a dderbyiwyd.
Troslgwyddwyd £813 i'r Apel Cancr er cof am Jim. Diolch o galon i bawb.
MARWOLAETH. Bu farw un o gymeriadau annwyl y pentref ar 31 Mawrth, sef Mrs Maggie Lewis, Madryn House. Roedd newydd gael ei phen-blwydd yn 99 oed ond yn anffodus, dim awydd i'w ddathlu oherwydd gwaeledd.
Cafodd ofal arbennig gan y teulu a bydd ei cholli yn arw iawn iddynt. Cafodd fywyd caled yn magu saith o blant a'i gadael yn weddw yn gynnar iawn, ond bu yn Awstralia dair gwaith pan yn llawer hŷn ac roedd wedi mwynhau ei bwyyd, yn ffyddlon i'w theulu mawr, ei chapel a'i chyfeillion lu.
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant atoch i gyd.
YN YR YSBYTY. Cofion gorau a phob dymuniad da i Mrs Eirlys Pierce, (Penterfyn gynt) sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty gwynedd.
Brysiwch wella, ac anfonwn ein cofion hefyd at bawb arall sydd yn sâl yn y pentref.
DIOLCHIADAU
DYMUNA Alf a Mai Parry, 2 Bryn Heli, ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau ymhell ac agos am y cardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Aur ddiwedd mis Mawrth.
PLAID CYMRU. Mae dipyn o amser ar ôl i orffen datrys y cliwiau i Helfa Drysor y Pasg. Croeso i bawb i'r Sefydliad Coffa nos Fercher, 10 Mai am 7.00 o'r gloch, lle bydd Dayfdd Whiteside Thomas yn trafod yr atebion uwchben paned o de, ac yn gwobrwyo'r enillydd. Nid yw'n rhy hwyr i ddechrau ac os hoffech gael copi o'r cwestiynau, ffoniwch Cliff a Vera (674878) Selwyn a Meirwen (675359) neu Llinos (674478).
PEN-BLWYDD ARBENNIG IAWN. Llongyfarchiadau mawr i Mrs Elizabeth Mary Williams, Cartref y Foelas (Lizzie Mary, 8 Deiniol Road, Deiniolen) ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 100 oed.
Dymuna Harri, Eilir a Richard, ei meibion, ddiolch yn arw i'r teulu a ffrindiau, pell ac agos, am eu cyfarchion ac yn arbennig i holl staff y Foelas am eu caredigrwydd.
BABI NEWYDD. Llongyfarchiadau mawr i Lyn a Phylip ar enedigaeth eu mab bach, Cian Phylip. Mae taid a nain, Leon a Linda Schudlack, Minffordd, wedi gwirioni. Pob bendith. Fe ddymuna'r teulu ddiolchyn fawr iawn i bawb am eu caredigrwydd ym mhob ffordd.
MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn y Neuadd Gymunedol ar nos Fawrth, 4 Ebrill. Estynnwyd croeso i bawb gan Bethanne, y Llywydd. Cyhoeddwyd nifer o ddigwyddiadau: cystadleuaeth Gardd y Flwyddyn; cyflwyniad gan Ferched y Wawr am 12.30 ar ddydd Sadwrn, 29 Ebrill yn yr Ŵyl Bedwen Lyfrau a gynhelir yn Galeri, Caernarfon; Cyfarfod Blynyddol a'r Ŵyl Haf ym Machynlleth ar 20 Mai; cyflwyniad Merched y Wawr ar ddydd Mercher yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe; perfformiad o Esther yn Theatr Gwynedd ym mis Mai; y Penwythnos Preswyl yn Llanbedr Pont Steffan 15–17 Medi; bwriad Eileen ac Eirianwen i gymryd rhan yn Race For Life a gynhelir eleni yn y Faenol a gwibdaith haf y gangen i Nant Gwrtheyrn. Penderfynwyd rhoi £100 o elw'r caffi yn Eisteddfod yr Urdd i'r Homeworkers yn Lesotho.
Y wraig wadd, a noddwyd gan yr Academi, oedd Menna Medi. Mae'n frodor o Lanuwchllyn, wedi graddio mewn cyfathrebu bu'n gweithio i Radio Cymru am 10 mlynedd yng Nghaerdydd, yna gweithio i gwmni Licyris Olsyrts yn Aberystwyth ac, ers saith mlynedd, mae'n swyddog marchnata i Gwmni Sain. Bu'n barddoni ers yn ddisgybl yn Ysgol y Berwyn, Y Bala, a bu'n sôn am y dylanwadau fu arni. Dangosodd rai o'r cadeiriau a enillodd ynghyd â medal a enillodd am Soned yn Eisteddfod Patagonia. Cyn hir a hwyr bydd ei nofel gyntaf, *Dyddiadur yr Hogan Horni*, yn dod o'r wasg. Darllenodd farddoniaeth a gyfansoddodd ar gyfer cystadlaethau mewn eisteddfodau bach, megis rhai'r capel a'r Ffermwyr Ieuainc. Nid dyna'r cyfan – mae gan Menna ddiddordeb arall sef cynhyrchu cardiau cyfarch a daeth â chasgliad ohonynt i'w dangos.
Diolchodd Bethanne i Menna am ei chyflwyniad hynod ddiddorol ac anogodd hi i ddyfalbarhau gyda'r cynganeddu.
Megan, Jean, Beryl a Helen fu'n paratoi'r baned ac enillwyd y raffl gan Mary.
DYMUNA'r plant a theulu'r ddiweddar Maggie Lewis ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli un annwyl iawn iddynt. Diolch am y cardiau a'r rhoddion hael tuag at Ysgol Pendalar a Band Llanrug. Diolch yn arbennig i'r Doctoriaid Esyllt Roberts a Penri Jones am eu gofal tyner o'u mam. Hefyd diolch i'r Parch Dafydd Hughes am ei gymorth a'i eiriau caredig yn ystod y gwasanaeth ac i'r organyddes, Mrs Mair Huws ac i'r Ymgymerwyr E.W. Pritchard am eu trefniadau trylwyr.
FE DDYMUNA Mrs Sally Thomas, Min y Rhos, Ffordd yr Orsaf, ddiolch o waelod calon i'w theulu, ei chyfeillion a'i chymdogion am eu caredigrwydd tuag ati ar ddathliad ei phen-blwydd yn 101 oed ar 9 Mawrth. Derbyniodd gardiau, anrhegion a galwadau ffôn di-ri a chafwyd diwrnod i'w gofio ym Min y Rhos. Diolch i bawb. Llongyfarchiadau mawr i chwithau, Mrs Thomas, oddi wrth y pentref.



*Dau Ffrind: Anti Tomos a Tomos Llŷr, a chanrif rhyngddynt, ar ddiwrnod y pen-blwydd.*

Am Offer Tŷ a Gardd...
FORMAG
41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

Sychlanhau • Altro
Ailwnïo
Gwasanaeth
Casglu a Danfon
54 Stryd Fawr
Llanberis
Ffôn: 870088
SWIGOD A SEBON
GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

# E. W. Pritchard
# CENTRAL GARAGE
# Llanberis

**Ffôn: (01286) 870202**

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

---

**Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern**

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur
- Yswiriant Teithio
- Cynlluniau Angladd
- Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

AGE Concern

Age Concern Gwynedd a Môn
Tŷ Seiont, Ffordd Santes Helen,
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD
**01286 678310**

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: ECO'R WYDDFA

Mae *Age Concern Enterprises Ltd* wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethu Ariannol (FSA) ar gyfer yswiriant cyffredinol. Mae'n gweithredu o tua 300 o Age Concern lleol ledled y DU

---

***Adran Dysgu Gydol Oes***
***Department of Lifelong Learning***

## Blas ar
## Addysg Uwch

Wedi meddwl astudio er mwyn pleser, neu diddordeb mewn cael cymwysterau?
Dewch draw i sesiynau blasu'r Adran Dysgu Gydol Oes mewn:

- Celf
- Cyfrifiaduron
- Sbaeneg ac Eidaleg

**Caban, Brynrefail**
**Dydd Llun, 22 Mai**
**2.30 - 4.30 pm NEU 6.00 - 8.00 pm**

Gweithgareddau yn rhad ac am ddim ond rhaid cofrestru ymlaen llaw drwy gysylltu â Shân Rees Roberts erbyn 16 Mai ar:

**☎ 01248 382 476**

**ems209@bangor.ac.uk**

---

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

## GARTH MAELOG

**51 Stryd Fawr, Llanberis**
**Ffôn: 870840**

---

## CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC
FFONIWCH UNRHYW AMSER:
WAUNFAWR (01286) 650552

---

**Byddwch yn llawer gwell allan hefo Ni!**

AUDI SEAT PORSCHE VOLKSWAGEN SKODA BMW PEUGEOT FIAT IMPORTS GERMAN SWEDISH VOLVO MERCEDES SAAB

Y Dewis arall Dibynadwy i Wasanaeth Y Prif Ddeliwr. Beth bynnag rydych yn ei yrru, o Audi i VW...

Shell HELIX

MOT

Ceir Benthyg **AM DDIM**

Cibyn Ind. Est., Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
**(01286) 673559** www.a-v-w.co.uk

AVW ADVANCED VEHICLE WORKSHOP Car Service BOSCH Service

---

- Priodasau
- Dathliadau
- Achlysuron Arbennig
- Cynadleddau
- Pwyllgorau
- Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul

QUALITY HOTEL

*Quality Hotel Llanberis*

**(Gwesty'r Fictoria gynt)**
– rhan o CHOICE HOTELS

***wrth droed yr Wyddfa***

**Ffôn: Llanberis (01286) 870253**

---

J.M. JONES A'I FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU

## Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael –

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

## LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

DYMUNA Owen, Helen ac Edryd ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ar ôl colli tad, tad-yng-ngyfraith a thaid, sef Mr Edward Sharp, Sheffield.

DIOLCH. Dymuna Karen, Kevin a Lynwen ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, mam-yng-nghyfraith a nain annwyl, Rowena Williams, Caernarfon, yn enedigol o Lanberis, gwraig ffyddlon y diweddar Morris Williams.

Diolch hefyd am y galwadau ffôn, y llu cardiau ac am y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof am Rowena, ac a gyflwynir rhwng meddygfa Waunfawr a Thŷ Gobaith. Diolch unwaith eto.

DYMUNA Muriel a Ted Morris ddiolch i'r teulu a ffrindiau am yr holl gardiau, blodau, anrhegion a'r arian ar achlysur eu Priodas Aur, ac yn enwedig i Tony a Janine, Ger a Llywela am y penwythnos bendigedig, bythgofiadwy yn York. Diolch o waelod calon i chi

LLONGYFARCHIADAU i Albert Bedlow, 15 oed o Elidir View, ar ennill Gwregys Du mewn Karate yn Rhyl ar 11 Mawrth.

LLONGYFARCHIADAU i Huw Owen, York Terrace, wedi iddo ddod yn gyntaf am chwarae'r Cornet ac ail am Ganu dan 12 oed yn Eisteddfod yr Urdd, Cylch Arfon.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL LLANBERIS.

Terfynwyd tymor y Gymdeithas yn y Bistro, Llanberis, nos Fawrth, 4 Ebrill gyda chinio ardderchog wedi ei baratoi gan Dani a Nerys. Diolch iddynt.

Y gwahoddedigion oedd Dyfan ac Angela Roberts. Cafwyd cyflwyniad gan Dyfan i goffáu y gwleidydd a'r heddychwr, Mr Gwynfor Evans. Dyfyniadau o'i eiriau a gafwyd a cherddi gan feirdd adnabyddus. Bydd CD o'r gwaith hwn i'w gael yn ystod yr haf a theimlwn yn freintiedig iawn o glywed y cynnwys cyn cyhoeddi'r gwaith. Diolch i Dyfan ac Angela am fod yn gwmni mor hyfryd ar y noson.

Llywyddwyd y noson gan y Parchedig John Pritchad a rhoddwyd y diolchiadau teilwng gan Mrs Vera Griffith.

Bydd pwyllgor i drafod cynnwys tymor nesaf y Gymdeithas yn mis Gorffennaf. Dowch i ddewis a chefnogi.

CÔR. Canu Er Mwyn Pleser.

Ar 18 Mai am 2.00 o'r gloch yn Festri Capel Coch, Llanberis, bydd y Côr yn cynnal cyngerdd dan ofal Mr Gwilym Lewis, Caergybi.

Cwrs ydyw dan nawdd Coleg Menai. Bydd Côr o Gaergybi, sydd ar yr un cwrs yn eu hardal hwy, yn ymuno gyda ni yn y cyngerdd. Bydd casgliad at achos da. Dowch i gefnogi a mwynhau.

BRYSIWCH I GOFRESTRU!

Unwaith eto bydd yr her o rasio o'r pentref i gopa'r Wyddfa yn digwydd eleni – ar ddydd Sadwrn, 22 Gorffennaf, ac mae cannoedd eisoes wedi cofrestru! Er mai Gorffennaf y 1af yw'r dyddiad cau swyddogol, mae'n debyg y bydd 500 lle yn y ras wedi eu llenwi ymhell cyn hynny.

Os am gystadlu ewch i'r wefan: www.snowdonrace.com neu gyrrwch amlen wedi ei stampio at Geoff Clegg, West Point, 19 Heol Deganwy, Deganwy LL31 19D

Hefyd bydd angen oedolion profiadol i reoli'r cwrs ar y diwrnod. Cysylltwch â Dafydd Ellis ar (01286) 675184 os oes gennych ddiddordeb.

Cynhelir rasys i'r plant eto eleni hefyd a chynhelir yr ymarferion hyfforddi bob dydd Llun rhwng 6 a 7 o'r gloch yn y ganolfan. Croeso i bawb.

## NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

DIOLCH. Dymuna Miss Selina Morris, Gardda Bach, ddiolch o galon i'w pherthnasau, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, arian, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 90 yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i bawb.

PEN-BLWYDD HAPUS i Iola Owen, 8 Nant Ffynnon, fydd yn 50 ar 19 Mai. Pob hwyl ar y dathlu!



*Aelodau o bwyllgor Treialon Cŵn Defaid Nant Peris yn rhoi siec o £500 i'r Apêl Ambiwlans Awyr a Thŷ Gobaith. Diolch i bawb a gyfrannodd.*

## DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

ANGEN GOHEBYDD LLEOL.

Mae'n ddrwg gennym ddeall nad yw Mrs Margaret Cynfi Griffith, gohebydd lleol y pentref ers nifer fawr o flynyddoedd, wedi bod yn teimlo'n rhy dda yn ddiweddar ac o'r herwydd teimla bod yn rhaid iddi roi'r gorau i'r gwaith. Anfonwn ein cofion cynnes ati, gan obeithio ei bod yn gwella ac y bydd adref gyda hyn.

Buasem yn ddiolchgar am enw person arall o'r ardal fyddai'n fodlon ymgymryd â'r gwaith o anfon newyddion yr ardal i'r *Eco* unwaith y mis. Gadewch i un o'r golygyddion wybod, os gwelwch yn dda.

Dymuna'r Tim Golygyddol wellhad buan iawn i Mrs Griffith a diolch yn fawr iawn iddi am ei gwaith caled.

DYMUNA Ivy a theulu'r diweddar Huw Price Morris, Fferm Rhianfa, Clwt-y-bont, ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad, cefnogaeth a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch am yr ymweliadau, cardiau, llythyrau a galwadau ffôn. Diolch i'r Parchedig Ganon Idris Thomas am ei wasanaeth ddydd yr angladd ac i Gwynfor Jones o E.W. Pritchard, Llanberis, am eu trefniadau trylwyr a pharchus. Bydd yr arian a dderbyniwyd er cof am Huw Price Morris yn cael ei roddi i Gyfeillion Ysbyty Eryri, Caernarfon.

CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST. Yng nghyfarfod mis Ebrill roeddem yn falch iawn o gael croesawu ein Ficer newydd, y Parchedig Robert Townsend, atom. Ein siaradwr gwadd oedd y Parchedig Wyn Roberts, Caplan Ysbyty Gwynedd. Siaradodd am ei waith a'i gyfrifoldebau dyddiol am ysbytai eraill cyn belled â Dolgellau a Thywyn ym Meirionnydd.


Cyfeiriodd at y newidiadau aruthrol sydd wedi bod mewn swydd Caplan Ysbyty. Y newid mwyaf yw y gofal bugeiliol, nid yn unig am y cleifion ond am holl weithwyr yr ysbytai. Yn ogystal â Christnogaeth, mae llawer o grefyddau eraill o fewn yr ysbytai, a rhaid parchu dymuniadau pob un. Noson oedd hon a roddodd agoriad llygaid inni am y gwaith hanfodol sydd yn mynd ymlaen i weinyddu cysur a chynnal anghenion ysbrydol y claf. Diolchwyd i'r Parchedig Wyn Roberts gan Mr Brian Price a Mrs Jennie Williams. Darparwyd lluniaeth ysgafn gan Mrs Jean Jones a Mrs Eira Wyn Hughes.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 2 Mai, a'r gŵr gwadd fydd Y Parchedig Philip Hughes, Rheithor Llanfairpwll, a bydd yn sôn am Uganda. Bydd croeso cynnes i bawb.


# H. E. HUGHES
## A'I FEIBION

**Bwthyn Gadlys**
**LLANBERIS**

**FFôn: 870444**



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!



# Gwlad o Gân
**Y gorau fu erioed!**

JONSI a TARA BETHAN
yn cyflwyno

**JOHN AC ALUN**
**IONA AC ANDY**
**BROC MÔR**
**BRENDA EDWARDS**
**WIL TÂN a LLIWEN**
**ALISTER ANDERSON**
**BAND GWYCH**

**Theatr Gogledd Cymru, Llandudno**
Mai 18, 2006 – 7.30
Tocynnau £10.0 (01492) 872000

# LLWYDDIANT BAND LLEOL







Bu'r grŵp roc Vanta, o Fethel a Llanrug yn dathlu'n ddiweddar, wedi i'w cryno ddisg newydd, *Caneuon o'r Gwaelod e.p.*, gyrraedd rhif 1 yn siart genedlaethol C2 Radio Cymru.

Yn dilyn dau gig llwyddiannus gyda Bryn Fôn yn y Temple Bar Music Centre, Dulyn, ar ddiwedd mis Chwefror eleni, rhyddhawyd y gryno ddisg hir-ddisgwyliedig ar label RASP / Fflach yn ystod mis Mawrth, ac roedd pob un o'r 500 copi cyntaf a gyhoeddwyd wedi eu gwerthu erbyn diwedd y mis. O'r herwydd, wythnos yn unig wedi i'r gryno ddisg gael ei rhyddhau, aeth Vanta yn syth i mewn i rif 2 yn y siart, gan godi i'r brig wythnos yn ddiweddarach.

Daeth y newyddion da yma ar ddiwedd blwyddyn lwyddiannus a phrysur iawn i'r hogia', ers iddynt ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth Cân i Gymru 2005 gyda'r gân 'Enfys Bell'. Mae *Caneuon o'r Gwaelod e.p.* yn cynnwys fersiwn newydd sbon o'r gân honno, ynghyd â'r gân boblogaidd iawn 'Tri Mis a Diwrnod', a oedd ymysg y caneuon a gafodd eu chwarae fwyaf ar BBC Radio Cymru a Champion 103 yn ystod 2005. Perfformiodd Vanta fersiwn acwstig arbennig o 'Fa'ma 'Di'r Lle' – un o'r caneuon eraill ar y gryno ddisg – gyda Rebecca Trehearn (enillydd cystadleuaeth *Waw Ffactor* S4C 2005) ar raglen *Uned 5* ar S4C yn ddiweddar, ac mae'r band ar fin recordio sesiynau acwstig arbennig i Radio Cymru a Champion 103, er mwyn hyrwyddo'r gryno ddisg ymhellach.

Mae nifer o gigs wedi eu trefnu ledled Cymru ar gyfer y misoedd nesaf hefyd, gan gynnwys gig acwstig y tu allan i siop Na-Nog yng Nghaernarfon ar brynhawn dydd Llun, 1af Mai a pherfformiad yng Ngŵyl y Felinheli yn ystod mis Mehefin.

Mae Mei, Gerallt, Martin a Steve yn hapus iawn gyda'r llwyddiant y mae'r band yn ei gael ar hyn o bryd, ac yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi eu cefnogi yn lleol. Mae mwy o gopïau o *Caneuon o'r Gwaelod e.p.* bellach wedi eu cyhoeddi, ac ar gael o bob siop gerddoriaeth Gymraeg leol gwerth ei halen. Gellir cael mwy o wybodaeth am Vanta o'u gwefan: www.vanta.org.uk.

**Silver STAR**
**GWYLIAU SEREN ARIAN**

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

**Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333**

## BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

COFION. Anfonwn gofion gan ddymuno adferiad llwyr a buan i Richard Wyn Evans, Ty'n Buarth, a gipiwyd i Ysbyty Gwynedd fore Sul, 9 Ebrill.

PROFEDIGAETH. Daeth y newydd trist am farwolaeth Gwilym Hughes, Bryn Parc, ar 15 Ebrill yn Ysbyty Llandudno yn 85 mlwydd oed. Dioddefodd salwch blin ers nifer o flynyddoedd a bu gofal ei briod, Jennie, yn fawr ohono yn ystod yr amser hwnnw. Bydd llawer yn ei gofio am ei waith fel peiriannydd nodedig am gyfnod maith ym Modurdy Automobile Palace yn Llanfairpwll. Bu'r angladd cyhoeddus ddydd Gwener, 21 Ebrill yn Amlosgfa Bangor gyda'r Parch Marcus Wyn Robinson yn gwasanaethu. Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â Jennie ac â Nerys, ei ferch, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. Y GYMDEITHAS. Cynhaliwyd cyfarfod agoriadol y Gymdeithas yn y Ganolfan nos Iau, 13 Ebrill. Cadeirydd y noson oedd Ifanwy Jones, Rhandir, ac estynnodd groeso cynnes i bawb. Un o'r aelodau oedd gŵr gwadd y noson, sef Dafydd G. Ellis, Gweledfa. Er ei fod yn un ohonom yn y poentref ers tua deng mlynedd ar hugain aeth ei sgwrs â ni i'w fro enedigol, sef Dolwyddelan. O dan y teitl 'Dylanwad Seiri Dolwyddelan' rhoddodd adroddiad diddorol iawn am bedwar o seiri y daeth i gysylltiad â hwy yn eu gweithdai yn y pentref o'i ddyddiau yn blentyn i'w arddegau. Yn ychwanegiad pwrpasol i'r sgwrs daeth â nifer o enghreifftiau o gelfi traddodiadol a darnau unigryw o'i waith coed ei hun – y cwbl yn dangos crefftwaith arbennig iawn. Diolchwyd iddo gan y Cadeirydd a chafwyd sylwadau pellach a gwerthfawrogiad gan nifer oedd yn bresennol. Anfonwyd cofion at Jennie Hughes, y Llywydd, yng ngwaeledd ei phriod ac at Richard Wyn Evans, yn Ysbyty Gwynedd. Dwynwen Williams a Bethan Lambert baratodd y lluniaeth. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, 11 Mai, pryd y disgwylir Jane Evans i roi sgwrs ar 'Cynaladwyaeth Gwynedd'.

OEDFAON MAI.
7: Cymanfa Doabarth Padarn
14: Parch John Owen, Bethesda, am 5.30
21: Parch Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon, am 5.30
28: Parch Eric Jones, Bangor, am 5.30

Cefnogwch ein Hysbysebion

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? os felly
☎ FFONIWCH ☎
(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)
Eifion Hughes (7 diwrnod)
*Gwasanaeth Da am Bris anhygoel*

**CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR**
Bob math o waith trydanol i'r **Cartref**, ac i **Sefydliadau Masnachol** a **Diwydiannol**
Tel: **(01286) 879064** • Symudol: **07810736482**
Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd
Shaun Jones, Terannedd, Rhes Cynfi, Deiniolen LL55 3LG

**GORSAF BETROL**
**Esso BERAN**
**DEINIOLEN**
**Ffôn: (01286) 871521**
**Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod**
**Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo**
**Cylchgronau • Papurau Newydd**
**Cardiau Penblwydd • Wyau**
**Nwyddau Groser • Melysion**
**TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!**

# Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfu'r Cyngor Cymuned nos Fawrth, Mawrth 21ain yn Ysgol Cymuned Cwm y Glo. Yn absenoldeb y cadeirydd, y Cyngh. Arwel Thomas, cadeiriwyd gan yr is-gadeirydd y Cyngh. Dafydd Whiteside Thomas. Cadarnhawyd yn gywir gofnodion cyfarfod mis Chwefror.

Datganwyd buddiant personol gan Goronwy Hughes a D. Whiteside Thomas ynglŷn â chais y Sefydliad Coffa am arian ac hefyd gan Brian Jones ynglŷn â gwyro Llwybr Cyhoeddus rhif 19 – Bryn Afon/ Uwchlaw'r Ffynnon yng Nghwm y Glo.

Daeth PC Eurwyn Thomas o'r heddlu cymunedol i'r cyfarfod ac fe gafwyd crynodeb o'r digwyddiadau a'r problemau ym mhentref Llanrug. Y broblem fwyaf yn ddi-os yw effaith alcohol ac mae hynny'n waeth ar nos Wener nag unrhyw noson arall. Bydd yr heddlu yn defnyddio'r fan CCTV a bydd swyddogion ychwanegol ar ddyletswydd ar nosweithiau Gwener. Mae cardiau melyn yn cael eu dosbarthu am droseddu ac fe ddilynir hyn gan ymweliad i gartref y troseddwr. Maent hefyd yn gobeithio ymweld ag Ysgol Brynrefail pan gynhelir nosweithiau rhieni.

Rhoddodd rif cysylltu i ni eto – 01286 673333 neu ffôn symudol 07795283858 – gan annog y cyhoedd i gysylltu os oes ganddynt unrhyw gŵyn neu bryder. Diolchodd Eryl Roberts i PC Thomas am ddod i'r cyfarfod ac am ei waith ef a'i gyd-weithiwr, PC Dylan Jones, ac ychwanegodd fod pethau wedi gwella yn y pentref yn ddiweddar.

Penderfyniadau Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd: Caniatawyd y canlynol – cais i roi estyniad ar Glan Bogelyn, Cwm y Glo; addasu adeilad yn uned wyliau yn Nhy'n y Coed, Llanrug; addasu adeilad i fod yn rhan o dŷ Jasmine Cottage, Llanrug; newidiadau ac estyniadau i 1 Bron Seiont, Pontrug, a lleoli 9 caban pren ychwanegol ym maes Carafannau Brynteg, Llanrug

Daeth dau gais cynllunio o flaen y Cyngor Cymuned ac nid oedd gwrthwynebiad i adeiladu tŷ ar gyfer gweithiwr amaethyddol ar Fferm Prysgol, Caeathro na chwaith ar gais i drosi, addasu ac ymestyn adeilad yn dŷ yn Nhan y Coed Uchaf, Ceunant. Ond fe fynegwyd pryder am ddatblygiadau eraill o fewn libart yr eiddo hwn – codi *chalet*, agor ffosydd a lleoliad y tanc septig. Hefyd bydd angen amddiffyn hawl tramwy ar hyd llwybr cyhoeddus rhif 24 tra bydd y gwaith yn cael ei wneud ac ar ôl cwblhau'r gwaith.

Dyfarnwyd £200 i Eisteddfod Llanrug a Chwm y Glo; £25 i Gwmni'r Frân Wen; £1,750 i Sefydliad Coffa,Llanrug.

O dan faterion gan y Cynghorwyr trafodwyd y bwriad i greu un Awdurdod Heddlu i Gymru gyfan. Roedd y Cynghorwyr yn unfrydol yn gwrthwynebu'r bwriad.

Bwriedir gwahodd Mr Dafydd Einion Jones, Swyddog Adfywio Bro, i ddod i gyfarfod â'r cynghorwyr yn y dyfodol agos.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn y Sefydliad Coffa, Llanrug am 7 o'r gloch, nos Fawrth, Ebrill 25ain 2006.


**Darlith flynyddol**
**CAPEL REHOBOTH**
**NANT PERIS**
**yn y capel am**
**7.00 p.m.**
**nos Lun, 8fed o Fai**

***'Y Brawd Roger o Taize'***

gan
**Yr Hybarch**
**Meurig Ll. Williams**

Hefyd blas ar gerddoriaeth addoliad Taize
Trafodaeth a lluniaeth i ddilyn


**GWYN JONES**
**FFENESTRI ERYRI**
**GARTH ISAF, LLANRUG**
**(01286) 650764**
neu
**07050 357735**



FFENESTRI
DRYSAU
DRYSAU PATIO
*PORCHES*
BYRDDAU FFASIA
CLADIO
CONSERFATERIS

BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES


# PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

CRONFA'R PENSIYNWYR. Diolchir i bawb a gefnogodd y Noson Bingo, nos Wener, Mawrth 31ain. Gwnaed elw o £140.

PÊL BONWS LOTERI. Enillydd **Mis Mawrth** oedd Mrs Janet Jones, 12 Bryn Tirion ac enillydd **Mis Ebrill** oedd Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y Gwynt. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonoch.

ADRAN YR URDD. Yn anffodus yn ystod ymweliad Sam Tân â'r Urdd, bu'n rhaid iddo ef a'r Frigâd Dân ruthro oherwydd argyfwng, ond un da am gadw at ei air yw Sam Tân, ac fe ddaeth yn ôl a chafwyd gwledd o amser yn ei gwmni. Pob dymuniad da i aelodau o'r pentref fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn Ruthun.

PENBLWYDD ARBENNIG. Llongyfarchiadau a phob bendith i ti, Osian Wyn, Cae Corniog Bach, ar achlysur dy ben-blwydd yn 18 oed ar Ebrill 29 ain. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Ebrill, a'r enillwyr lwcus oedd:
1af: Catrin Glyn, Llanrug
2ail: Eiriona Williams, Glyn Euron
3ydd: Ann Ifans, Sycharth

Cynhaliwyd noson o Firi'r Pasg, Nos Iau, Ebrill 16, am 6.30 yn y Neuadd Gymuned. Bu cystadlu brwd ar yr amrywiol gystadlaethau ac yn ôl y beirniaid teg, Iris ac Islwyn Williams, Cae'r Bleddyn, roedd y safon yn arbennig o dda. Cafwyd amrywiaeth o gardiau a lluniau gan blant yr ysgol a diolchir i'r Pennaeth a'r staff am eu cydweithrediad a'u hanogaeth. Roedd nifer o wyau lliwgar a chelfydd iawn ac roedd yr hetiau Pasg yn ddigon addas i'w gwisgo ar gyfer Ascot! Bu nifer o'r plant yn addurno teisen Simnel ac roedden yn sicr yn tynnu dŵr o'r dannedd. Cafwyd gerddi Pasg hefyd ac roeddent yn werth i'w gweld. Bu'n dasg anodd i Iris ac Islwyn a diolchir iddynt am eu geiriau caredig ac am eu caredigrwydd. Diolchir i'r rhai fu wrth y byrddau tombola a theisennau ac i'r rhai fu'n brysur yn y gegin yn paratoi'r baned. Bu'n noson gymdeithasol, lwyddiannus dros ben.

Atgoffir chi am werthiant **Calendr 2006**: gellir prynu diwrnod am £1.00 gyda gwobr o £50 i'r enillydd lwcus.

**Mai 19**, trefnir **Taith Gerdded Banoramig** gan Leslie Larsen i gychwyn o'r Ysgol Gymuned am **6.00 yh.** Pwysleisir y bydd angen car, gan fod y daith yn Llanberis ac y bydd yn ofynnol i blant fod yng ngofal oedolyn. Os nad ydych yn berchen car, fe fydd lle i chwi yn un o'r ceir – dewch i ymuno â ni.

Cynhaliwyd Cymanfa'r Annibynwyr Cylch Cwm y Glo, ym Mosra, b'nawn Sul, Ebrill 2ail. Roedd y Capel yn orlawn a chafwyd awr a hanner fywiog a byrlymus yng ngofal Mererid Mair, Penmaenmawr. Cymerwyd y rhan dechreuol gan athrawon ac aelodau Bosra a chafwyd eitemau clodwiw gan Ysgolion Sul Ebeneser, Deiniolen a Chapel Coch, Llanberis. Llywyddwyd gan y Parch John Pritchard a diochwyd i bawb gan Gadeirydd Pwyllgor y Gymanfa, Robert Lloyd. Diolchir hefyd i'r Pennaeth am bael parti ar fuarth yr ysgol.

YSGOL SUL BOSRA. Bydd y plant yn cymryd rhan ym **Miri Mehefin**, yng Nghapel Seiloh, Tregarth ar Fehefin 18fed. Bydd te bach ar ddiwedd y gwasanaeth. Trefnir bws a gobeithir eto eleni gael eich cefnogaeth i'r Gymanfa.

Y Sul canlynol, **Mehefin 25ain**, cynhelir **Gwasanaeth Sul y Beiblau.** Bydd manylion pellach yn y rhifyn nesaf.

GWELLHAD. Anfonir ein cofion a'n dymuniadau gorau at Dafydd Roberts, 10 Bryntirion, Bu'n derbyn triniaeth yn yr ysbyty.

EGLWYS SANTES HELEN.

*Y Groglith a'r Pasg.* Cynhaliwyd awr dawel rhwng 2 a 3 o'r gloch ar brynhawn dydd Gwener y Groglith, dan arweiniad y Parchedig Geraint Meirion Jones. Ar fore'r Pasg gweinyddwyd y Cymun gan Mr Derek Jones, Llanberis, a braf oedd croesawu cynulleidfa dda i'r eglwys i ddathlu ei phrif ŵyl. Roedd yr adeilad wedi ei addurno'n ddestlus ar gyfer yr achlysur gan garedigion yr eglwys.

*Festri'r Pasg.* Cynhelir Festri'r Pasg am 7pm nos Iau, 4 Mai yn Neuadd yr Eglwys.

*Ysgol Sul.* Diolch i'r aelodau a'r arweinwyr am eu ffyddlondeb ar hyd y tymor a fu. Byddwn yn ailddechrau ar y dysgu ar ddydd Sul, 30 Ebrill, ac yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys am 10.30 bob bore Sul hyd at y Sulgwyn. Os carai unrhyw un gynorthwyo â'r gwaith o arwain, neu os hoffai unrhyw un ymuno â'r dosbarthiadau galwch draw i'n gweld ar fore Sul neu i un o'r gwasanaethau wythnosol yn yr Eglwys.

*Patrwm gwasanaethau.* Bydd y patrwm yn parhau i ddilyn y drefn o wasanaeth am 10am ar Sul cyntaf a thrydydd Sul y mis, ac am 3.30 ar ail a phedwerydd Sul y mis. Bydd trefniadau arbennig ar gyfer pumed Sul mewn mis, pan ddigwydd hynny, yn cael eu cyhoeddi yn y wasg wythnosol.


**BWS BACH AR LOG**



**Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati.**
**Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan**
**(01248) 361044**
**D. P. OWENS** RHIWLAS

# CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfu'r Cyngor ar yr 11eg o Ebrill. Offrymwyd y weddi agoriadol gan Richard Llwyd Jones.

Datgan buddiant. Huw P. Hughes ar faterion cynllunio.

Derbyniwyd Cofnodion Mawrth fel rhai cywir.

**Materion o'r cofnodion**

Dywedwyd bod **cysgodfan bws Bethel** wedi ei difrodi eto. Soniwyd am y gwaith atgyweirio sydd wedi ei archebu a bod angen paratoi rhaglen blaenoriaethau. Nid oes cysgodfan yn Rhiwlas ac eto mae'r lleill i gyd yn cael eu trwsio.

**Cofeb Huw Lloyd Edwards.** Derbyniwyd pris Crefft Elidir am ffurfio cofeb a'i gosod, dewisiwyd llythrennau gwyn yn hytrach nag arian. Dywedodd Phyllis Ellis bod y teulu yn awyddus i gyfrannu. Awgrymodd hefyd gael cyfarfod a phaned yn y ganolfan fel rhan o'r dadorchuddio. Derbyniwyd y syniad, bydd y Cyngor yn barod i gyfrannu at y gost.

**Dŵr Cymru.** Derbyniwyd eu sicrhad bod y diffygion carthffosiaeth ger Trem Eilian, Brynrefail wedi eu datrys.

**Meinciau.** Cadarnhad Gwynedd yr atgyweirir y meinciau o flaen yr hen lyfrgell, Deiniolen.

**Derlwyn, Clwt y Bont.** Torrir y tyfiant i'r ffordd gan y perchnogion.

**Stablau i Cae Hywel.** Glanheir y ffordd gan Wynedd. Nid oes polyn trydan yno ar gyfer lamp ychwanegol, penderfynwyd gofyn i Wynedd be fyddai cost lamp a chynhyrchydd *Solar.*

**Gohebiaethau eraill**

Rhaglen waith Gwynedd:

Gwneir llecyn parcio anabl ger 46 Rhydfadog, Deiniolen; gwaith draenio yn Ffordd Penrhos, Bethel a cwrbio Lôn Glai, Pont Rhug.

**Cynllunio**

Ceisiadau a dderbyniwyd:

Addasu adeilad i 12 uned wyliau: Parciau Rhos, Bethel.

Adeiladu sied: Bron Fedw, Gallt y Foel.

Estyniad: 6, Caeau Gleision, Rhiwlas.

Estyniad: 2, Hafod Olau, Deiniolen.

Estyniad: Ceidio, 3 Tre'r Gôf, Bethel.

Tŷ Fforddiadwy – Tŷ Newydd, Bethel. **

Ailgodi modurdy: 2, Bryn Hyfryd, Bethel.

Ymestyn Cartref yr Henoed, Penisa'rwaun.

** Trafodwyd hyn gan mai dyma'r cais cyntaf am dŷ fforddiadwy.

Rhaid sicrhau bod canllawiau dilys yn bodoli ar ddyluniad y tŷ a bod y prynwyr/ perchnogion yn disgyn i'r categori iawn. Penderfynwyd gofyn i Wynedd am wybodaeth ynglŷn â hyn er mwyn paratoi llythyr safonol ar gyfer ceisiadau'r dyfodol.

Dywedodd Huw P. Hughes bod problemau carthffosiaeth difrifol ym Methel a dylid gohirio pob datblygiad ychwanegol hyd nes datrys y rheini.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Adeiladu sied: Bron Fedw, Gallt y Foel.

Addasu adeilad ac adeiladu modurdy: Blue Peris Farm, Dinorwig.

Ailadeiladu modurdy: Ger y Nant, Bethel.

Estyniad: Cerrig Llwydion, Dinorwig.

Estyniad a lle parcio: 1, Tan y Bryn, Bethel.

Addasu adeilad i wneud annedd: Ysgubor, Penisa'rwaun.

Gwrthodwyd gan Wynedd:

Newid rhan o'r tŷ i warchodfa plant: 3, Bron Helen, Clwt y Bont.

Fferm Bryn Madog, Brynrefail: Nid oedd ateb Gwynedd yn ddealladwy. Yn y paragraff cyntaf – 'nid yw y datblygiad... yn gyfreithlon'.

Ac yn yr ail baragraff – 'nid oes tor rheolaeth cynllunio'. Penderfynwyd gofyn am eglurhad.

**Apeliadau Cynllunio**

Buarth Bunkhouse, Deiniolen yn Swyddfa Penrallt am 10.00 ar y 11eg o Orffennaf 06.

63/81 Caeau Gleision, Rhiwlas yn dechrau 14/03/2006.

**Llwybrau**

Ar gais Huw P. Hughes gofynnir i Wynedd pwy sy'n gyfrifol am gynnal llwybr mewn tir preifat. Craig yr Undeb. Dywedwyd bod y llwybr yn anodd ei dramwyo ac eglurodd y clerc ei fod eisioes wedi hysbysu Cyngor Llanberis.

Llwybrau Rhiwlas:

Llwybr 139 Rhiwlas gofynnodd Hefin Williams am gael arwyddion 'dim baw cŵn' yno.

Llwybrau 60 i 65. Angen arwyddion mewn sawl lle.

Angen eu hadfer o ffosydd yn ôl i lwybrau.

Angen newid camfa am gât ger Tros y Waun.

Lwybr 139.

Carafan ger Carreg y Gath – cŵn yn ymyrryd â cherddwyr, angen ffens solet i gadw'r cŵn o olwg cerddwyr.

Angen i'r tirfeddiannwr dorri'r gwrychoedd.

**Materion eraill**

**Rhiwlas**

Dywedodd Elspeth Mitcheson bod y tarmac wedi codi lle yr atgyweiriwyd y ffyrdd ar ôl llifogydd. Hefyd bod rwbel (fridges ayyb) yn cael eu gadael lle mae tanciau nwy y Tai Cyngor. Ychwanegodd Hefin Williams bod ysbwriel yn cael ei adael wrth y biniau ailgylchu yn Gors, Rhiwlas – angen ei glirio a gosod arwydd 'dim ysbwriel' gyda rhif ffôn yr adran casglu sbwriel. Tynnir sylw Gwynedd at y materion yma.

**Brynrefail**

Gwnaeth Pat Jones y sylwadau canlynol:

Trem Eilian: Trawyd hogyn gan fodur yn ddiweddar, mae marciau wedi eu gosod yno ond dim twmpathau, hyd yn hyn.

Cae chwarae: angen arwyddion 'dim baw cŵn' yno.

Angen golau ffordd ychwanegol ger Bryn Madog

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: 2il o Fai, Cyfarfod blynyddol.

# WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

**GŴYL FAI ANTUR WAUNFAWR**
**Hwyl i'r holl deulu**
**dydd Sadwrn, 29 Ebrill, am 1.00y pnawn**

Amrywiol stondinau, crefftwyr ac adloniant.
Meithrinfa blanhigion a'r gerddi yn agor am dymor newydd
Siop a Chaffi ar agor
Cystadleuaeth gwisg ffansi i blant.
Mynediad £1, Plant: 50c

CLWB 300. Dyma enillwyr y Clwb 300 am fis Mawrth:
£40: Ms Sylvia Thompson, 21 Bro Waen; £25: Mr S. Wroe, Bryn Siriol; £10: Mrs N. Huws Roberts, Bodrida.

GENEDIGAETH.
Llongyfarchiadau i Mrs Marian Williams, 18 Stad Tŷ hen ar ddod yn nain i Ellis Wyn. Ganwyd ei ŵyr bychan newydd i Marian a Meirion ei mab. Brawd bach newydd i Dion Rhys a Tomos Garmon.

CROESO ADREF O'R YSBYTY i Mrs Kit Jones, Stad Tref Eilian; Mr John Dawson, Stad Tref Eilian ac i Mr Eurwyn Williams, Parc, wedi iddo gael llawdriniaeth. Hyderwn yn fawr y byddwch yn gwella wedi cael dod adref.

CYDYMDEIMLO. Daeth profedigaeth o golli un annwyl i ran teuluoedd yn y pentref. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mrs Mary Jones, Llwyn Afon, a Mrs Margaret Jones, Y Dalar Deg, yn eu profedigaeth o golli eu mam, Mrs Lewis o Lanrug.

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs Gracie Roberts, stad Bryn Golau. Cydymdeimlwn â Stanley Vaughan yn ei brofedigaeth o golli ei fam. Cydymdeimlwn â Geraint Williams, Henllan, Stad Croesywaun, a'i frawd Richard yn eu profedigaeth o golli eu tad, Mr Emlyn Williams.

Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu y diweddar Mr Ronald Edwards, Cae'r Waun, ei briod Martha Edwards a'i ddwy ferch Nora Ferrarese, Gilfach a Gwyneth.

Yn dawel yn Ysbyty Eryri, bu farw Mr Cyril Smith, Rhoslan, priod annwyl Janet Smith a thad Karen, Heather a Michael. Cydymdeimlwn â hwy yn eu colled. Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Smith, a hithau newydd ddod adref o'r ysbyty.

DIOLCHIADAU. Dymuna Rol a Gethin, 5 Pant y Waun, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd gan lu mawr yn ei brofedigaeth o golli gwraig, mam a nain mor annwyl â Gwenlli.

CARTREF NEWYDD. Dymunwn bob hapusrwydd ar aelwyd newydd i'r rhai sydd wedi symud cartref o fewn y pentref. Croeso cynnes i'r teuluoedd sydd wedi ymgartrefu o'r newydd yn y Waun. Gobeithiwn yn fawr y byddwch yn hapus yma.

DATHLU PEN-BLWYDD. Dymuna teulu a ffrindiau Keith ac Iris, Stad Tŷ Hen, ddymuno pen-blwydd hapus arbennig i'r ddau.


DYWEDDÏAD. Llongyfarchiadau i Rhodri Sion, Pant Teg, a Gwen Griffiths o Rhuthun ar eu dyweddïad. Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd i'r ddau ohonoch.


Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
www.ybistro.co.uk
Perchnogion: Danny a Nerys Roberts



SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR
•Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn
Ffôn: 650218

# CROESAIR MAI



**Ar Draws**

1. Dysgu i siarad yn gywir.
5. Gwefus i wefus.
6. Diwedd bywyd.
7. Dau dîm gyda'r un sgôr.
10. Mae angen trwydded i ddal y pysgodyn yma.
13. Mae hwn yn dod o'r India.
15. Cewch hwn wrth ddefnyddio camera un diwrnod o'r wythnos.
16. Rhywbeth i gerdded arno.
17. Siâp pêl.
18. Mae hwn wrth yr halen ar y bwrdd.
19. Maddeuant.
21. Mae hwn yn dod o'r simdde.
24. Lliw poblogaidd i yrrwyr faniau.
25. Ffordd i mewn neu allan.
27. Pobl sy'n byw mewn ardal.
28. Cwch bach Cymreig.
33. Nid yw'n oer.
34. Distaw.
35. Llumanwr Bryncoch.
36. Bachgen.
37. Cewch bigiad gan y pryf yma.
40. Maint.
43. Mae angen hwn i ddal pysgodyn.
44. Anifail gyda 9 bywyd.
47. Coeden, gall fod yn arian.
48. Mynd yn ôl.
52. Tynnwr llun.
54. Tyfiant ar ddiwedd bys.
55. Esgid coedyn.
56. O'r un ardal.
57. Taliad i'r llywodraeth.
58. Byddwch yn cyfnewid un wrth briodi.
59. Anifail gyda mwng.

12. Asgwrn o'r goes.
14. Nid yw'n boeth.
20. Gwybodaeth am ddigwyddiadau'r dydd.
22. Prif swyddfa.
23. Ynys yng ngogledd Cymru.
24. Gelyn yn yr ardd.
26. Heb briod.
27. Gallwch adeiladu castell gyda hwn.
29. Parhau am byth.
30. Bron iawn.
31. Coch, gwyn neu *rosé*.
32. Cyswllt mewn dilledyn.
38. Gyda'n gilydd.
39. Nid oes angen rhain mewn byngalo.
41. Mynd heibio.
42. Cymryd bwyd.
44. Nid yw'n boeth nac yn oer.
45. Te, pwdin, cawl neu bwrdd.
46. Defnyddio clustiau
47. Dinas gyda phrifysgol yng ngogledd Cymru.
49. Mae glaw yn disgyn o hwn.
50. Rhywbeth i fwyta oddi arno.
51. Mae angen aros wrth y golau yma.
53. Nid yw'n agos.

**I Lawr**


2. Beth mae'r barbwr yn ei siapio.
3. Gallwch ailgylchu hwn.
4. Mae'n bosib gweld drwy hwn.
8. Mamal adeiniog.
9. Enillwr.
11. Porthladd yng ngogledd Cymru.

Cefais chwech ateb drwy'r post mis yma ond yn anffodus, dim ond pedwar oedd yn gywir. Y cyntaf cywir i gyrraedd oedd gan Nan Owen o Lanberis. Cyrhaeddodd y tri arall gyda'i gilydd gan E. E. Jones, Jean Hughes-Jones a Catherine A. Jones o ardal Pwllheli.

Oherwydd bod rhai yn cael trafferth i ddarllen croesair mis Ebrill oherwydd maint y sgwariau, rwyf wedi lleihau'r grid i 25 sgwâr y mis yma... Gobeithiaf y bydd hyn yn gwneud pethau ychydig haws ond y byddwch yn dal i'w fwynhau – pob lwc!

Ar ol cwblhau croesair mis Ebrill, gyrrwch eich atebion at Tecwyn Evans (Croesair), Tremallt, Waunfawr, Gwynedd, LL55 4YY erbyn Ebrill XXX.

Tec



# RHEDEG MYNYDD

Mae'r tymor wedi ailafael ynddi o ddifri bellach, a chyfres rasus nosweithiau Mawrth wedi cychwyn eisoes. Erbyn i'r rhifyn hwn o'r *Eco* eich cyrraedd, bydd bron yn amser cynnal ras fawr flynyddol Moel Eilio, sy'n hynod boblogaidd yn lleol a hefyd gan redwyr o rannau eraill o Brydain.

Yn ras Elidir (cyfres nos Fawrth), Dylan Jones o Ddeiniolen oedd yr enillydd mewn amgylchiadau anodd, gyda niwl ar y copa a thirwedd socian o wlyb a llithrig wrth ddod i lawr. Mae dros chwe deg o redwyr eisoes wedi cystadlu yn y ddwy ras gyntaf, a bydd Ras Mynydd Mawr wedi ei chynnal ddau ddiwrnod cyn cyhoeddi'r papur. Rhai eraill ar y gorwel yw Moel y Gest, Moel Faban, Dinorwig (Parc Padarn), Cwm Bychan a Ras Fer Moel Eilio i ddiweddu'r gyfres. A chofiwch fod rasus i blant a ieuenctid yn y mwyafrif o'r rhain hefyd. Gwyliwch y wasg leol neu safle gwe Rhedwyr Eryri am fwy o wybodaeth.

# RHODDION

**£20.50:** P. W. Williams, Corby.

**£20:** Mrs Sally Thomas, Min y Rhos, Llanrug; di-enw, Bontnewydd; Plant Mrs Maggie Lewis, Llanrug.

**£11.00:** Owen Jones, Rhosllwyn, Llangefni.

**£10.50:** Mrs G. M. McCarthy, Caldwell; R. W. Roberts, Blaenau Ffestiniog; Anna Sidebottom, Whalley Bridge.

**£10:** Ivy a theulu'r diweddar Huw Price Morris, Fferm Rhianfa, Clwt-y-bont; Mrs J. E. Jones, 15 Hafan Elan, Llanrug; Dorothy a Gordon Carter, Didfa, Llanrug; Mrs L. Horman, Venice, Llanrug; Alf a Mai Parry, 2 Bryn Heli, Llanrug; Er cof am John Rowlands, Llys Forgan, Llanrug; Helen Sharp, 28 Maes Padarn, Llanberis; Karen, Kevin a Lynwen, Sŵn y Gwynt, Caernarfon; Muriel a Ted Morris, Llanberis; Emrys Owen, Solihull; Tom Parry, Hagley; Mrs Jenny Williams, Morfa Bychan; Mrs C. M. Beswick, New Brighton;

**£6:** Mrs Jean Jones, Wenallt, Bethel.

**£5.50:** Alun Williams, Waunfawr; Olive Thomas, Llanddaniel; Mrs Nancy Lovatt, Aberystwyth.

**£5:** Rol a Gethin Williams, 5 Pant y Waun, Waunfawr; Diane a Dylan, Dôl Afon, Cwm-y-glo; E. Williams, Y Felin, Llwyndyrus; Geraint Huws Roberts, Bangor; John Evans Hughes, Kirby Muxlow; Mrs B. Williams, Llanfairpwll.

**£2.50:** Rhiannon Griffiths, Tre Owen; Arvona Jones, Prestatyn;

**£2.00:** Ronnie Williams, Alyestone.


# Tŷ Gwledig Meifod

**Bontnewydd**

**01286 673351**

**Cinio Dydd Sul**

Cinio Tri Chwrs a choffi @ £13.95 • Plant @ £7.95

Ar agor: 12.00 y.p. tan 9.00 y.h.

**Prydau Bar**

Ar gael dydd Llun i ddydd Gwener

12.00 y.p. – 9.00 y.h.

**Te Prynhawn**

Cynnig Arbennig

**Cinio Rhost canol dydd**

2 gwrs = £5.95

Dydd Llun i ddydd Gwener

12.00 – 2.00 y.h



**Cefnogwch ein hysbysebwyr**

# CHWARAEON


## Dau Frawd Dwy Gamp

Mae awyrgylch chwaraeon yn gryf iawn yng nghartref Carwyn a Llion Jones yn Llanberis. Mae Carwyn, sy'n 16 oed, wedi denu sylw yn ddiweddar am ei berfformiadau aeddfed fel cefnwr chwith neu ganol cae i dîm cyntaf y pentref. Me wedi chware rhyw 20 gêm i'r tîm cyntaf eleni, gyda'r uchafbwynt pan ymddangosodd fel eilydd yn y gêm Cwpan Cymru ar Ffordd Farrar. Mae Carwyn yn droed chwith naturiol, sy'n beth prin iawn heddiw.

Braf nodi hefyd fod dau o chwaraewyr ifanc arall yn rheolaidd yn yr un tîm, sef Gethin Wakeham a Nidian Huws, y ddau yn ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail.

Rhaid canmol clwb Llanberis am eu ffydd yn yr ieuenctid yma, a hwythau'n ymwybodol y bydd timau o safon uwch yn eu llygadu. Mae'r tri hefyd yn aelodau allweddol o dîm dan 17 y clwb. Cefnogwr Man Utd yw Carwyn, gyda Rooney yn hoff chwaraewr. Tybed a welwn ni Carwyn yn cymryd 'gambl' a chwarae ar lefel uwch. O'i feithrin yn synhwyrol, yn sicr mae ganddo gyfle.

Mae Llion, y brawd fengaf, sy'n 14 oed, hefyd yn bêl-droediwr. Chwaraewr ganol cae yw Llion i dîm –15 Llanberis a thîm academi Bangor. Bydd yn eu cynrychioli mewn cystadleuaeth yn yr Amwythig yn y dyfodol agos. Eisoes mae wedi chwarae yn erbyn timau –15 o glybiau eraill yng Nghynghrair Cymru.




Ond, mae diddordeb arall gan Llion, sef rhedeg traws gwlad. Yn ddiweddar enillodd ei 'fest genedlaethol' ym Mhencampwriaeth Prydain draw yn Swydd Buckingham. Mae wyth rhedwr yn cynrychioli pob gwlad, a Llion oedd y pumed gartref.

Tra'n eu holi, braf oedd sylwi ar y tlysau o gystadlaethau Tlws yr Eco yn y cefndir. Yn sicr, mae Carwyn yn enghraifft o'r bachgen lleol yn cael cyfle yn ei filltir sgwâr. Fe ddilynwn ei ddatblygiad gyda diddordeb. Pob lwc iddo.

## Apêl Gymunedol

Dros y blynyddoedd bu'r golofn yn cefnogi ymdrech pwyllgor clwb pêl-droed Bethel i ddarganfod maes i'r tîm yn y pentref. Maes Ysgol Brynrefail fu'r cartref, a diolch am eu cymorth parod. Yn anffodus, bu'n anodd denu pentrefwyr yno i gefnogi.

Ymddengys fod llygedyn o obaith ar y gorwel. Fe dderbyniodd y pwyllgor gynnig i brynu llain o dir sy'n estyniad o Gae Coed Bolyn. Os gwireddir y cynllun, yna bydd cartref yno i dîm hŷn a thîm dan 17 y pentref – tîm pwysig er lles dyfodol y clwb. Fe fydd digon o dir hefyd i adeiladu ystafelloedd newid.

I bwrcasu'r tir, mae'n ofynnol i'r pwyllgor godi £4,500 yn y deg wythnos nesaf. Mae ambell weithgaredd yn cael ei drafod eisioes.

Gobeithir rhoi hwb gychwynnol i'r fenter drwy wneud apêl am arian gan bentrefwyr a busnesau yr ardal. Y mae perchnogaeth y tir yn anghenrheidiol er mwyn ceisio am y grantiau fydd eu hangen i ddraenio, lefelu ac adeiladu.

Os cyrhaeddir y nod, bydd y ddwy elfen – ieuenctid a hŷn – yn ymuno i ffurfio Clwb Chwaraeon Bethel. Buasai rheolaeth o'r tir yn cael ei roddi yn nwylo'r Ymddiriedolwyr presenol.

Yn amlwg, mae hyn yn gyfle gwych i osod sylfaen bendant i'r clwb, ac yn ffordd i'r ardal gyfan gefnogi'r gwaith caled a wnaed gan y criw bychan gweithgar ers ailsefydlu'r clwb. Yn sicr, daeth y tîm â chryn sylw a chlod i'r pentref. Peth braf ar unrhyw adeg yw croesawu rhywun 'adref'.

Os hoffai unrhyw un gyfrannu, gellir cysylltu ag Ysgrifennydd y clwb, Tecwyn Hughes ar 01248 671469.

## Brwydr yr Iaith

Fe ddywedodd rhyw wleidydd ychydig o flynyddoedd yn ôl fod 'brwydr yr iaith' wedi ei hennill. Erbyn hyn mae llywodraeth y Cynulliad wedi diddymu Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Eto, yn y byd real gwyddom mai israddol iawn yw statws ein hiaith 'genedlaethol' mewn sawl maes. Ymddengys fod hyn yn wir yn y byd pêl-droed.

Yn ystod y 'drafodaeth' ddiweddar rhwng Cynghrair Arfon a'r 'Welsh F.A.' daeth yn amlwg fod y bwrdd rheoli yn gwrthod derbyn na thrafod gohebiaeth yn y Gymraeg.

Mae hyn yn gwbwl gyfeiliornus, yn yr un modd fod nifer o'n cynghorau yn dal i dderbyn gohebiaeth uniaith Saesneg oddi wrth y Cynulliad.

Rhaid canmol felly safiad John Pritchard a phwyllgor y gynghrair leol i herio datganiad Ysgrifennydd yr F.A. mai Saesneg yw iaith weinyddol pêl-droed yng Nghymru. Unwaith eto daeth grym F.I.F.A. i gefnogi 'y bychain', a mynnu fod yr iaith gynhenid yn iaith swyddogol tu fewn i weinyddiaeth y gêm ym mhob gwlad.

Yn dilyn y penderfyniad yma gobeithio y bydd y Cymry Cymraeg ar wahanol bwyllgorau yn defnyddio'r Gymraeg, gan fynnu cyfieithu os bydd angen.

A yw hi'n rhy hwyr i'r F.A. logi pabell ar faes y Brifwyl eleni, a danfon swyddogion draw i wynebu barn y werin ar wahanol agweddau o'r byd pêl-droed yng Nghymru?

Efallai y buasent yn synnu faint sydd yn chwarae, gwylio a thrafod y gêm drwy gyfrwng y Gymraeg. A beth am gylchgrawn yn y Gymraeg i hybu'r gêm ymysg yr ifanc? Onid yw hi'n amlwg i bawb erbyn hyn fod ein ieuenctid yn cael eu trwytho a'u boddi gan drafod y gêm yn Lloegr drwy gyfrwng papurau, cylchgronau a theledu.

Rhaid dod i mewn dair neu bedair tudalen o'r cefn i gael newyddion am y gêm yn lleol yn y *Daily Post* – papur 'cenedlaethol' y gogledd, chwedl nhw. Ychydig iawn yw'r trafod.

Dros y Pasg roeddwn yn ne Ceredigion, ac ar Lun y Pasg yn gwylio rownd derfynol Cwpan y Gynghrair rhwng Aberaeron a Llanbed. Llanbed enillodd o flaen torf o ryw 500.

O sgwrsio, roedd nifer yn gefnogol i safiad ieithyddol y Gogs, ac aed ymlaen i drafod y rheol un chwaraewr un clwb. Yng Ngheredigion mae sefyllfa pêl-droed ieuenctid yn gref, ac mae ymdrech dda yn cael ei wneud i gael y chwaraewyr i symud yn rhwydd o'r lefel iau i'r timau hŷn. Yn anffodus, nid oes gan pob tîm adran ieuenctid, felly gall chwaraewr ifanc addawol chwarae i un tîm ieuenctid, ac i dîm arall yn yr oedran hŷn. Bydd rhaid edrych ar arwyddocad y sefyllfa yma o dan y rheol newydd.

Un pwynt i orffen. Pan oeddwn yn ddyfarnwr, uniaith Saesneg oedd ffurflenni adroddiad y dyfarnwyr. Cyfle nawr i newid y drefn a rhoddi dewis i'r dyfarnwyr pa iaith i'w defnyddio. Os mai rheol y North Wales Coast F.A. yw hyn, yna cyfle iddynt hwy edrych ar eu polisi iaith.

Taro tra mae'r haearn yn boeth fel petai!

## Pigion Wrth Basio

Ni wn a fydd rownd derfynol Cwpan Cymru wedi bod cyn i'r *Eco* weld golau dydd, ond pob dymuniad da i griw Brynrefs beth bynnag.

* * *

Bydd rhai o'n timau gemau 'dan do' yn boddi wrth ymyl y lan wedi yndrech dda eleni. Ym myd dartiau marched, gyda pedair gêm ar ôl yn adran gyntaf Cynghrair Caernarfon a'r Cylch, mae tîm Penbont 'B' yn ail a Phenbont 'A' yn drydydd. Dau bwynt sy'n gwahanu'r ddau dîm. Ym myd y Pŵl, mae Gors Bach 'A' yn ail yn yr ail adran, un pwynt o flaen yr arch elynion Fic, Felin. Os na ddaw'r bencampwriaeth, mae siawns dda am ddyrchafiad i fois y Gors.

* * *

Mae'r glaw cyson yn arwydd sicr fod y tymor criced ar ddechrau. Yn bersonol bydd yn flwyddyn bwysig, gan fod clwb Bangor yn dathlu ei ben-blwydd yn 150 oed. I chwi ddilynwyr, bydd Wythnos Griced ganol mis Gorffenaf, gyda gêm arbennig yn erbyn yr MCC a gêm o 20/20. Hefyd ar ddechrau Awst, ceir gêm yn erbyn Sir Forgannwg fel rhan o flwyddyn dysteb Darren Thomas. Bydd y gêm yma cyn ymweliad y Sir â Bae Colwyn. Digon i edrych ymlaen iddo felly, a thywydd braf gobeithio!

* * *

Ydy, mae hi bron yn fis Mai. Fe ddaw cyfnod Tlws yr Eco o fewn dim, a gobeithio y cawn gynrychiolaeth o bob pentref eto eleni. Os oes gan unrhyw glwb sylw ynglŷn â'r drefn rhowch wybod i mi. Bydd mwy o wybodaeth y mis nesaf.

